Rhif: **WG14766**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Adnoddau Naturiol Cymru

Y Trefniadau a Gynigir ar gyfer Sefydlu a Chyfarwyddo Corff Newydd i Reoli Adnoddau Naturiol Cymru

Dyddiad cyhoeddi: **9 Chwefror 2012**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **2 Mai 2012**

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn holi eich barn am y trefniadau arfaethedig i sefydlu a chyfarwyddo corff newydd ar gyfer adnoddau naturiol Cymru.

## Sut i ymateb

Llenwch y ffurflen i ymateb i'r ymgynghoriad a'i dychwelyd atom cyn dydd Mercher 2 Mai 2012 dros e-bost neu drwy'r post drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk.

## Manylion Cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Carrie Moss
Tîm Rhaglen 'Cymru Fyw'
Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CF10 3NQ

E-bost: SEB@wales.gsi.gov.uk
Ffôn: 02920 82 5527

## Diogelu Data

**Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch i ni**

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â hwy. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb atom. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid i ni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

© Hawlfraint y Goron 2012

## Rhagair

Mae adnoddau naturiol Cymru – ein hawyr, ein tir, ein dŵr a bioamrywiaeth – yn hanfodol i ansawdd ein bywydau. Maent yn darparu bwyd, dŵr, ynni, pren a deunydd adeiladu, a llawer o gyfleoedd ar gyfer ein heconomi. Ein hadnoddau naturiol hefyd sy'n rhoi i ni ein tirluniau a'n morluniau deniadol, i ni eu gwerthfawrogi neu fel cefndir i'n gweithgareddau hamdden megis cerdded, gwylio adar neu bysgota. Ac wrth gwrs mae ein hadnoddau naturiol yn rhoi llawer o gyfleoedd i ni sy'n helpu i gynnal ein cymunedau.


Mae pwysau cynyddol fodd bynnag – o ffactorau amgylcheddol fel y newid yn yr hinsawdd, a ffactorau cymdeithasol ac economaidd. Mae angen i ni felly sicrhau ein bod yn rheoli ein hadnoddau yn y ffordd orau un, i sicrhau gwerth am arian a'r canlyniadau gorau i bawb yng Nghymru a'n heconomi. Mae angen i ni wneud hyn mewn ffyrdd sy'n gynaliadwy, fel nad ydym yn gwastraffu'r asedau naturiol y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn dibynnu arnynt.

Fel Llywodraeth, rydym wedi bod yn ystyried y ffordd orau o ddatblygu'r broses o reoli adnoddau naturiol yma yng Nghymru. Hwnnw oedd pwnc yr ymgynghoriad blaenorol 'Cymru Fyw', sydd bellach wedi'i ddilyn gan Bapur Gwyrdd 'Cynnal Cymru Fyw'. Yn y papurau hyn, rydym wedi rhoi amlinelliad o'n huchelgais i reoli mewn ffyrdd mwy cydgysylltiedig, gan ystyried yr un pryd holl ffactorau perthnasol rheoli adnoddau naturiol, i'n helpu i wneud penderfyniadau gwell a mwy cynaliadwy.

Yn dilyn yr ymgynghoriad 'Cymru Fyw', a pharatoi achos busnes manwl, rwyf bellach wedi cyhoeddi fy mwriad i symleiddio ein trefniadau sefydliadol, drwy greu un corff mwy cydgysylltiedig gan ddod â swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru at ei gilydd. Rwyf hefyd wedi cyflwyno ein bwriad i gadarnhau'r newidiadau sefydliadol hyn drwy ddwyn ymlaen y ddeddfwriaeth ar ddatblygu cynaliadwy, yr amgylchedd a chynllunio i foderneiddio ein fframwaith deddfwriaethol.

Rwy'n credu bod hwn yn gyfle cyffrous i lunio dull o reoli ein hadnoddau naturiol yn y dyfodol. Byddai gan gorff newydd swyddogaethau allweddol mewn sawl maes o'n bywydau; diogelu ein hadnoddau naturiol, cefnogi datblygu cynaliadwy, darparu cynnyrch o'n hystad goedwigaeth i gefnogi busnesau gwledig, ac ein hamddiffyn rhag llifogydd, a helpu i sicrhau ansawdd bywyd ein pobl. Byddem yn disgwyl iddo roi cyngor a mewnbwn amgylcheddol i'n prosesau cynllunio a datblygu deddfwriaeth newydd, ein helpu i gynllunio trefniadau rheoleiddio newydd sy'n symleiddio prosesau ac yn annog buddsoddi, tra'n cynnal safonau amgylcheddol.

Bydd nifer o heriau i’w goresgyn, yn ddiamheuol, ond bydd dileu ffiniau sefydliadol yn rhoi’r cyfle i ni rannu brwdfrydedd, sgiliau a gwybodaeth staff, adnoddau, a phwerau cyfreithiol ar gyfer dull mwy cydgysylltiedig o reoli adnoddau naturiol yn awr ac yn y dyfodol. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn helpu i benderfynu sut yr ydyn ni’n gweithredu’r newidiadau hyn. Rwy’n edrych ymlaen at gael eich barn ar y cynigion hyn.



**John Griffiths AC**
Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

## Crynodeb

Mae’r ymgynghoriad hwn yn holi barn pobl ar y trefniadau arfaethedig i sefydlu a chyfarwyddo corff newydd i reoli adnoddau naturiol Cymru.

Mae’r ddogfen ymgynghori yn disgrifio’r cyd-destun strategol ac yn egluro pam rydyn ni’n cynnig sefydlu corff newydd.

Mae’n egluro ein cynigion i newid y gyfraith i sefydlu’r corff newydd.

Mae’r ddogfen yn disgrifio ein huchelgais ar gyfer y corff newydd, yn ogystal â’r ffordd yr ydym yn bwriadu gosod ei bwrpas cyffredinol o fewn cyd-destun. Mae’r ymgynghoriad hefyd yn pennu rhai amcanion lefel uchel ac yn eu cysylltu â’r canlyniadau yr ydym wedi’u blaenoriaethu drwy ein strategaethau. Rydym hefyd yn cynnig trefniadau ar gyfer cysylltu â chwsmeriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys dulliau o sicrhau tryloywder llwyr yng ngwaith y corff.

Mae’r ymgynghoriad yn disgrifio ein cynigion ar gyfer prif swyddogaethau a phwerau’r corff, gan gynnwys ystyried rhai elfennau o swyddogaethau Llywodraeth Cymru a Byrddau Draenio Mewnol.

Mae’n gosod ein cynigion ar gyfer statws y corff newydd a sut y bydd yn cael ei lywodraethu, gan gynnwys trefniadau ar gyfer bwrdd gweithredol a chysylltu â rhanddeiliaid yn ehangach.

Mae hefyd yn egluro sut rydyn ni’n bwriadu datblygu materion sy’n gysylltiedig â llywodraethu trawsffiniol a’n cynigion ar gyfer y cysylltiadau â Gweinidogion Llywodraeth Cymru i sicrhau y bydd y corff yn gwbl atebol i Weinidogion wrth iddynt gyflawni eu hamcanion gan ddefnyddio’r adnoddau sydd ar gael iddo.

Cynhelir yr ymgynghoriad yn unol ag adran 18 o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Hwn fydd y prif ymgynghoriad ar y cynigion, er ein bod wedi nodi meysydd gwaith penodol, fel dyfodol Byrddau Draenio Mewnol sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru a chynllun iaith Gymraeg y corff newydd, y byddwn yn ymgynghori ymhellach arnynt.

# Adran 1: Cefndir

## 1.1 Cynnal Cymru Fyw

Natur, tir, dŵr ac awyr Cymru, ynghyd â'r fioamrywiaeth sy'n eu cefnogi ac sy'n dibynnu arnynt, yw ein hadnoddau naturiol hollbwysig[1] – y sail sy'n golygu bod popeth arall yn bosibl. Er mwyn i ni wireddu ein dyheadau i gael ansawdd bywyd gwell a gwella ein hamgylchedd i genedlaethau'r dyfodol, mae angen i ni reoli'r adnoddau naturiol hyn er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl ac economi Cymru.

Fodd bynnag, mae'r heriau mwy o faint a mwy cymhleth yn yr 21[ain] ganrif megis y newid yn yr hinsawdd yn golygu y bydd angen ffyrdd newydd o weithio er mwyn i ni wireddu ein dyheadau. Mae ein hymateb, a nodir yn ein Papur Gwyrdd, 'Cynnal Cymru Fyw' yn seiliedig ar ecosystemau[2], sy'n gofyn i ni edrych ar yr amgylchedd yn ei gyfanrwydd a deall ei gydberthynas â'n hanghenion, iechyd a lles cymdeithasol ac economaidd.

Fel rhan o'r dull gweithredu hwnnw, rydym yn cydnabod bod ein hamgylchedd, yr adnoddau naturiol y mae'n eu darparu ac effeithiolrwydd y prosesau gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'i ddiogelu a'i ddefnyddio yn ganolog i'n hamcanion cymdeithasol ac economaidd. Mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd o wella'r hyn a wnawn, a sut y byddwn yn ei wneud, er mwyn i ni gynnal a gwella ein hasedau amgylcheddol dros amser, gan sicrhau eu bod yno er budd cymunedau, a bod ein prosesau penderfynu yn cefnogi ein heconomi, ein cymunedau a datblygu cynaliadwy. Bydd hyn yn cynnwys dulliau a phartneriaethau cyflawni newydd ac arloesol, gan gynnwys gwaith gyda phartneriaid yn y trydydd sector ac awdurdodau lleol.

Mae 'Cynnal Cymru Fyw' yn dod ag amrywiaeth o fesurau at ei gilydd, a fydd ar y cyd yn ein galluogi i weithio mewn ffordd fwy cydgysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys:

- Symleiddio ein trefniadau sefydliadol, dileu ffiniau cyfyngol, sicrhau bod ein sefydliadau yn canolbwyntio ar anghenion yng Nghymru ac ein galluogi i symleiddio ein nodau, ein cynlluniau a'n prosesau.
- Moderneiddio a symleiddio ein fframwaith rheoleiddio a rheoli, drwy gyflwyno deddfwriaeth newydd ar yr amgylchedd a chynllunio.

---

[1] Yn y papur hwn, mae Adnoddau Naturiol yn cynnwys adnoddau ffisegol (aer, tir, dŵr) a'r ecosystemau (bioamrywiaeth) sy'n eu cefnogi ac yn dibynnu arnynt. Rydym yn diffinio rheoli adnoddau naturiol fel unrhyw swyddogaeth sy'n ategu'r broses o ddiogelu, gwella neu ddatblygu adnoddau naturiol a'r defnydd cynaliadwy ohonynt. Felly, mae cwmpas Rheoli Adnoddau Naturiol yn amrywio o gyngor ac ymyriadau rheoleiddio i ddiogelu'r amgylchedd (trefol a gwledig) i ddatblygu ecosystemau i'w defnyddio at ddibenion megis hamdden a chynaeafu (e.e. coedwigoedd).

[2] Mae'r dull gweithredu seiliedig ar ecosystemau wedi'i ddiffinio gan Gynhadledd y Partïon ar y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol fel 'A strategy for the integrated management of land, water and living resources that promotes nature conservation and sustainable use in an equitable way recognising that humans with their cultural diversity are an integral part of ecosystems.' (http://www.cbd.int/ecosystem/).

- Treialu cynlluniau rheoli adnoddau lleol seiliedig ar ecosystemau a datblygu cynigion ar gyfer cynlluniau gofodol cenedlaethol i ddiogelu, adfer, defnyddio a rheoli'r amgylchedd, yn gysylltiedig â newidiadau i'n cyfundrefn cynllunio a rheoli datblygiadau ehangach.

## 1.2 Cyd-destun Datblygu Cynaliadwy

Byddem yn disgwyl i'r corff newydd ein helpu i gyflawni ein nodau strategol fel Llywodraeth a'n blaenoriaethau ar gyfer ein hamgylchedd, ein cymdeithas a'n heconomi. Datblygu cynaliadwy yw ein prif egwyddor drefniadol, ac mae ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy ('Cymru'n Un; Cenedl Un Blaned') yn nodi ein gweledigaeth o Gymru gynaliadwy a'n dull o ymgorffori datblygu cynaliadwy ym mhob un o'n polisïau a'n penderfyniadau. Ceir rhagor o fanylion am hyn a strategaethau eraill Llywodraeth Cymru yn Atodiad 1.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod datblygu cynaliadwy yn golygu gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cymunedau, gan wella ansawdd bywyd i'n cenhedlaeth ni ac i genedlaethau'r dyfodol. Mae angen cyflawni hyn mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal ac sy'n gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn gweithio o fewn ei gapasiti – gan ddefnyddio ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/?lang=cy.

Caiff y newidiadau a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn eu gosod yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy, ein prif egwyddor drefniadol, a'n cynigion i atgyfnerthu'r ffocws yn y sector cyhoeddus ar ddatblygu cynaliadwy drwy ein Bil Datblygu Cynaliadwy arfaethedig, y byddwn yn ymgynghori arno yn ystod 2012.

## 1.3 Symleiddio ein trefniadau sefydliadol

Mae'r papur ymgynghori hwn yn canolbwyntio ar y cyntaf o'r tri mesur a nodir yn 'Cynnal Cymru Fyw': symleiddio ein trefniadau sefydliadol. Mae'n disgrifio ein cynnig i greu corff newydd i Gymru, drwy ddod â swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Chefn Gwlad Cymru ('y tri chorff') at ei gilydd, ac o bosibl rai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Draenio Mewnol sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

## 1.4 Pam rydym yn ceisio eich barn?

Yn y papur ymgynghori hwn, rydym yn cyflwyno ein cynnig i greu'r corff newydd, y cyfarwyddyd ar gyfer ei waith, a'r ffordd orau o'i sefydlu. Rydym yn ceisio barn er mwyn ein helpu i lywio'r corff newydd mewn ffyrdd a fydd yn sicrhau'r canlyniadau gorau i amgylchedd, pobl ac economi Cymru, gan gynnwys ar y meysydd canlynol:

- ein cynnig i greu un corff amgylcheddol;
- diben y corff;

- ei swyddogaethau cyfreithiol, gan gynnwys yr opsiwn i gynnwys rhai swyddogaethau sy'n rhan o gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a chyrff eraill ar hyn o bryd;
- ei drefniadau llywodraethu – gan gynnwys natur y corff, goruchwyliaeth ac atebolrwydd i Lywodraeth Cymru a phrosesau ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Credwn fod hwn yn gyfle newydd a chyffrous i lunio'r ffordd y caiff adnoddau naturiol Cymru eu diogelu a'u rheoli yn y dyfodol ac edrychwn ymlaen at glywed eich barn.

# Adran 2: Beth yw'r achos dros newid?

## 2.1 Yr achos busnes

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith manwl i werthuso amrywiaeth o opsiynau, gan gynnwys:

- dim newid;
- rhannu gwasanaethau;
- cyfuniadau o ddau o'r cyrff;
- creu un corff newydd.

Roedd hyn yn golygu llawer o waith gwerthuso, a wnaed gan staff o’r sefydliadau a fu’n gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru dros gyfnod o fwy na deuddeg mis. Cyflwynwyd yr adroddiad terfynol ar y gwaith ar ffurf achos busnes amlinellol strategol[3] a fu'n destun adolygiad annibynnol allanol, cyn cael ei gyflwyno i Weinidogion.

Mae'r achos busnes, ynghyd â'i gasgliadau, a'r adroddiad ar yr adolygiad annibynnol, bellach wedi'u cyhoeddi'n llawn yn www.wales.gov.uk/SEB. Mae'n nodi'r buddiannau, y costau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chreu un corff, yn ogystal â'i fforddiadwyedd a chynllun amlinellol ar gyfer y broses o'i sefydlu. Aseswyd yr opsiynau yn erbyn meini prawf Gwerth am Arian (Gwerth Presennol Net) a chwe maen prawf ansoddol. Rhestrir y rhain isod, ynghyd â'r pwysoliad a neilltuwyd iddynt:

- Canlyniadau i'r amgylchedd (35%).
- Canlyniadau i bobl (10%).
- Canlyniadau i fusnes a'r economi (25%).
- Canolbwyntio ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru (15%).
- Cryfder sefydliadol a gweithredol (10%).
- Cyfleoedd i staff yng Nghymru (5%).

Daeth yr achos busnes i'r casgliad mai un corff oedd yr opsiwn a oedd fwyaf tebygol o sicrhau'r canlyniad gorau ar gyfer pob un o'r chwe maen prawf asesu ansoddol. Byddai hefyd yn sicrhau'r budd economaidd net gorau ar ôl ystyried cost y newid a chwyddiant (£69m dros 10 mlynedd). Daeth i'r casgliad hefyd fod cost ymlaen llaw'r newid yn fforddiadwy a bod modd rheoli'r risgiau.

[3] Mae'r achos busnes llawn ar gael yn www.wales.gov.uk/seb.

## 2.2 Y ffactorau sy'n sbarduno newid

Mae tri phrif ffactor sy'n sbarduno newid:

- yr angen i foderneiddio'r gyfundrefn reoleiddio a'r ffordd y caiff adnoddau naturiol eu rheoli;
- yr angen i ganolbwyntio ar flaenoriaethau, cyfleoedd a heriau Cymru a adlewyrchir yn neddfwriaeth a pholisïau Cymru;
- yr angen i sicrhau gwerth am arian.

Mae Atodiad 2 yn cyflwyno'r achos dros newid yn fanylach. Crynhoir y prif fuddiannau a nodwyd yn ystod y broses o lunio'r achos busnes isod.

### 2.2.1 Gwella canlyniadau – gwneud pethau'n well i Gymru

Mae sefydlu corff newydd yn elfen ganolog o strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli adnoddau naturiol. Byddai cyfuno swyddogaethau'r sefydliadau yn arwain at un sefydliad ag agenda fwy cyflawn. Byddai iddo ffocws gwell, gydag un nod, ac un gyfres o flaenoriaethau, cynlluniau ac amcanion. Byddai hyn yn hwyluso cysoni ag amcanion Llywodraeth Cymru ac anghenion Cymru, gan helpu i grisialu blaenoriaethau a phenderfyniadau o ran rheoleiddio a chyflawni.

Byddai'r corff newydd yn canolbwyntio'n bennaf ar sicrhau canlyniadau gwell i'r amgylchedd, a chanddo. Byddai'n rhoi un ffocws cynllunio ar gyfer adnoddau naturiol, gan gysylltu ei gyfrifoldebau rheoli ar gyfer tir, coedwigaeth, natur (gan gynnwys safleoedd dynodedig), adnoddau dŵr ac ansawdd dŵr, rheoli'r perygl o lifogydd a physgota dŵr croyw, gan symleiddio a chydgysylltu cynlluniau wrth iddo ddatblygu. Yn ogystal, byddai'n ategu hyn drwy ddefnyddio ei bwerau rheoleiddio mewn ffordd gymesur er mwyn hwyluso datblygu a thwf economaidd tra'n diogelu'r amgylchedd rhag defnydd amhriodol a niwed. Felly, byddai'n gyfrwng allweddol i weithredu mewn ffordd gydgysylltiedig yn seiliedig ar ecosystemau, sy'n angenrheidiol yn ein barn ni.

Byddai adnoddau a setiau sgiliau cyffredin yn helpu prosesau cyflawni, ynghyd â set fwy cyflawn o bwerau cyfreithiol. Byddai cyfuno neu gronni setiau sgiliau, galluoedd a gwybodaeth yn arwain at wasanaethau mwy effeithiol a chydnerth – yn genedlaethol ac yn lleol. Enghreifftiau amlwg yw'r wybodaeth a'r fantais fasnachol i'r sefydliad ehangach a'i ddiwylliant yn sgil cynnwys timau coedwigaeth, yr wybodaeth fanylach am gadwraeth mewn gweithrediadau o ddydd i ddydd a fyddai'n deillio o gynnwys arbenigedd Cyngor Cefn Gwlad, arbenigedd rheoleiddio Asiantaeth yr Amgylchedd, a'r gallu cynyddol i ymdrin â digwyddiadau mawr megis llifogydd, lle y byddai'r gweithlu ar lawr gwlad yng Nghymru yn llawer mwy yn ystod digwyddiadau.

I fusnes a'n heconomi, byddai'r newid yn symleiddio'r tirlun rheoleiddio, drwy ddileu rhwystrau sefydliadol a chreu corff a all roi barn gyson ar faterion a chynigion. Ymhlith y buddiannau penodol i'r cyhoedd, busnesau ac awdurdodau lleol byddai:

- Ymatebion i awdurdodau cynllunio yn seiliedig ar farn gyffredin, ag un pwynt cyswllt, gan symleiddio trafodaethau ar faterion amgylcheddol â datblygwyr ac unigolion.
- Ymdrin â safbwyntiau gwahanol ar yr un sail dystiolaeth amgylcheddol yn gynt ac mewn ffordd fwy adeiladol, gan leihau'r oedi cyn penderfynu ar geisiadau mawr.
- Cyfundrefn reoleiddio symlach: un pwynt mynediad a chyngor i fusnesau, datblygwyr, awdurdodau cynllunio a thirfeddianwyr; prosesau gwneud cais symlach a chyflymach o bosibl.
- Llai o gyfarfodydd/trefniadau symlach ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Byddai'r newid hefyd yn rhyddhau adnoddau i'w hailfuddsoddi, gan roi'r cyfle i dargedu'r adnoddau hynny at flaenoriaethau 'rheng flaen' sy'n gwneud gwahaniaeth amgylcheddol. Gallai ailfuddsoddi rhai o'r arbedion hefyd wella gallu polisïau a'r arbenigedd technegol sydd ar gael, gan olygu bod modd canolbwyntio'n fwy ar y problemau sydd o bwysigrwydd arbennig yng Nghymru.

## 2.2.2 Rheoli adnoddau naturiol mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion Cymru

Byddai creu corff i Gymru'n unig yn golygu bod modd gwneud penderfyniadau mwy lleol ac yn hwyluso atebolrwydd mwy lleol: penderfyniadau a wneir yng Nghymru, i Gymru, gan ystyried treftadaeth a diwylliant cyfoethog Cymru ac iaith ein cwsmeriaid a'n partneriaid.

Byddwn yn parhau i ddiogelu a gwella'r amgylchedd a bioamrywiaeth, gan gynnal safonau amgylcheddol a sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth Ewropeaidd. Fodd bynnag, byddai gwneud pethau ar lefel Cymru, o fewn ein fframwaith deddfwriaethol datblygol ein hunain, yn symleiddio prosesau rheoleiddio a chyflawni fel bod pethau'n cael eu gwneud mewn ffordd, ac ar lefelau, sy'n briodol i Gymru.

Byddai'r corff, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid strategol eraill, yn gyfrifol yn benodol am symleiddio ac integreiddio dulliau rheoleiddio yn gyson â Bil yr Amgylchedd a'r Bil Cynllunio yn y dyfodol, a fydd eu hunain wedi'u gosod yng nghyd-destun fframwaith y Bil Datblygu Cynaliadwy.

## 2.2.3 Gwerth am Arian i bobl Cymru

Daeth yr achos busnes i'r casgliad y byddai buddiannau sylweddol o ran effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn deillio o sefydlu corff newydd. O dan y trefniadau presennol, mae llawer o swyddogaethau neu weithgareddau, yn enwedig swyddogaethau corfforaethol, yn cael eu dyblygu neu eu triphlygu yn y tri chorff a chyda'r rhiant-gyrff/cyrff partner yn Lloegr a'r Alban. Ymhlith yr enghreifftiau mae trefniadau llywodraethu (byrddau/uwch dimau rheoli), cynlluniau strategol, cyngor

cynllunio ar y defnydd o dir, cynllunio corfforaethol, gwasanaethau cyllid a chyfrifon, gwasanaethau adnoddau dynol, caffael, gwasanaethau a systemau TG, prosesau gweithredol a gweithdrefnau cyffredin, swyddfeydd ac adeiladau, cyfarpar gan gynnwys offer cyfalaf a llawer o feysydd eraill.

Byddai’r gwaith o ddileu gweithgarwch dyblyg/triphlyg yn cael ei ategu a'i atgyfnerthu drwy gyflwyno prosesau symlach a chyfleoedd i wneud pethau'n wahanol – am fod haenau cenedlaethol yn cael eu dileu, graddfeydd llai a mwy o ryddid gweithredol.

Mae'r arbedion amcangyfrifedig yn sylweddol[4]. Yn ychwanegol at y gostyngiadau cyllidebol presennol sy'n wynebu'r holl sefydliadau, rydym yn disgwyl arbedion, cyn costau newid, o £158m dros 10 mlynedd. Amcangyfrifwyd mai cost y newid (gyda darpariaeth wrth gefn sylweddol) fyddai £69m, y byddai arbedion yn y blynyddoedd cynharach yn talu am lawer ohoni. Ar ôl ystyried effaith chwyddiant, gwerth net arbedion yw tua £68m dros 10 mlynedd. Rydym yn bwriadu ailfuddsoddi'r arbedion hyn i wella ein hamgylchedd ac mewn gwasanaethau amgylcheddol i bobl a busnesau.

## 2.3 Risgiau

Wrth ddatblygu'r achos busnes, nodwyd tair prif risg yn wreiddiol – costau pensiynau staff, costau TGCh a statws TAW. Cafodd y risgiau hyn eu hasesu a'u hystyried yn llawn, a disgrifir yr atebion i'r risgiau hyn yn yr achos busnes. I grynhoi:

- O ran pensiynau staff, nodwyd dau opsiwn hyfyw. Mae'r opsiwn pensiynau a ragdybiwyd ar gyfer costau'r achos busnes yn seiliedig ar sefyllfa lle y byddai staff yn aros yn eu cynlluniau presennol. Yn y sefyllfa hon, byddai staff presennol yn gallu dewis aros yn eu cronfeydd pensiwn presennol. Fodd bynnag, byddai aelodau newydd, neu aelodau sy'n cael dyrchafiad gwirfoddol, yn symud i Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae hyn yn niwtral o ran cost i bob diben, ac eithrio cost ymlaen llaw newid, sydd wedi'i chynnwys yng nghostau'r achos busnes. Dyma'r rhagdybiaeth fwyaf ceidwadol.
- Cafodd costau TGCh eu hamcangyfrif yn annibynnol gan drydydd parti (Gartners) a roddodd amrywiaeth o gostau, gan ymgorffori amcangyfrifon ar gyfer tueddiad risg ac optimistiaeth. Roedd yr achos busnes yn cynnwys ffigurau yn seiliedig ar eu hamcangyfrifon uchaf.
- Mae'r posibilrwydd o barhau â'r gallu i adennill TAW (sydd ar gael ar hyn o bryd i Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth) wedi'i drafod â Chyllid a Thollau EM/y Trysorlys sydd wedi cytuno, heb gadarnhau manylion y newidiadau cyfreithiol a chymeradwyaeth Weinidogol, y byddai'r corff yn gallu adennill TAW o hyd.

Cafodd rhai risgiau ychwanegol eu nodi a'u hystyried hefyd. Crynhoir y rhain, ynghyd â mesurau lliniaru, yn Atodiad 3. Lle y bo'n briodol, cafodd y costau i roi cyfrif am y risgiau hyn eu cynnwys yn amcangyfrifon yr achos busnes.

[4] Gweler yr achos busnes llawn yn www.wales.gov.uk/SEB i gael rhagor o fanylion am gostau, buddiannau a risgiau.

## 2.4 Pryderon Rhanddeiliaid

Yn ystod y broses o ddatblygu'r achos busnes, cynhaliwyd trafodaethau ag amrywiaeth eang o bartïon â diddordeb, gan gynnwys y tri sefydliad, staff, grwpiau diwydiant, grwpiau buddiant a busnesau coedwigaeth, a grwpiau amgylcheddol. Trefnwyd cynhadledd hefyd gan y Sefydliad Materion Cymreig, y daeth llawer o bobl iddi.

Amlygodd y trafodaethau hyn nifer o bryderon. Ymhlith y rhain mae:

- O ran y sector coedwigaeth, codwyd pryderon am sicrwydd y cyflenwad pren yn y dyfodol; parhad perchenogaeth gyhoeddus, a sgiliau coedwigo.

  Ni ddylai ein cynnig gael effaith negyddol ar y materion hyn. Rydym yn bwriadu pennu dyletswyddau, targedau a chyfeiriad clir i'r corff newydd mewn perthynas â rheoli ein hystad coedwigoedd, a fyddai'n sicrhau cefnogaeth barhaus i economi wledig Cymru, gan gynnwys busnesau coetir a choedwigaeth preifat. Rydym wedi egluro ein bwriad i gadw'r ystad, a chynyddu arwynebedd coetir yng Nghymru. Y grŵp staff coedwigaeth fyddai'r swyddogaeth fwyaf yn y corff newydd hefyd, gan sicrhau ffocws parhaus ar gyfer arbenigedd ym maes coedwigaeth. Am y tro cyntaf, rydym yn cynnig dyrannu adnoddau polisi penodedig i goedwigaeth yn Llywodraeth Cymru, gan sicrhau ffocws a llais mewnol clir.

- O ran diwydiant, mae rhai pryderon wedi'u codi y gallai'r corff newydd arfaethedig gynyddu rheoleiddio a rhwystro gwaith datblygu. Drwy gydol yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi nodi'n glir ein bod yn bwriadu gwella a symleiddio'r ffordd yr ydym yn rheoleiddio yng Nghymru, gan gefnogi ac annog diwydiant a chan ddangos yn gliriach bod Cymru 'ar agor i fusnes'. Drwy wneud hyn, byddem yn bwriadu parhau i weithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr a Llywodraeth y DU i gynnal safonau amgylcheddol cyffredin, a lle y bo o fudd, drefniadau trwyddedu amgylcheddol cyson.
- Mae rhai pryderon wedi'u codi hefyd ynghylch achosion posibl o wrthdaro buddiannau a thryloywder prosesau gwneud penderfyniadau. Rydym yn ymdrin â'r materion hyn yn fanylach yn adran 6.

## 2.5 Beth yw'r amserlen?

Rydym yn cynnig creu un corff newydd o bob un o'r tri sefydliad ym mis Ebrill 2013.

Wrth i ni ddatblygu ein cynigion, rydym wedi ystyried nifer o opsiynau gwahanol ar gyfer y newid hwn, gan gynnwys gohirio'r newid nes ein bod wedi gwneud gwaith pellach ar 'Cynnal Cymru Fyw' ar sail y ffaith bod "ffurf yn dilyn swyddogaeth". Fodd bynnag, rydym wedi penderfynu gweithredu'n gyflymach, am y rhesymau canlynol:

- Mae datblygu dull gweithredu seiliedig ar ecosystemau a'i roi ar waith yn her fawr a byddai'n rhoi Cymru ar flaen y gad yn fyd-eang o ran sicrhau datblygu cynaliadwy. Rydym o'r farn y byddai cyflwyno un corff yn gynnar

yn helpu i lywio'r broses o ddatblygu'r dull ecosystemau a 'Cynnal Cymru Fyw' a'u hyrwyddo ymhellach trwy’r ffordd y mae'n gweithio ac yn gwneud penderfyniadau.

- Er nad yw llawer o'r manylion ar gyfer un corff wedi'u datblygu'n llawn eto, mae'r gwaith yr ydym wedi'i wneud i ddatblygu'r achos busnes wedi rhoi hyder i ni mai dod â'r tri sefydliad at ei gilydd yw'r opsiwn gorau ar gyfer y dyfodol, gan ein galluogi i gydgysylltu ein blaenoriaethau a phenderfyniadau gweithredol yn y ffordd fwyaf effeithiol.
- Rydym am leihau'r cyfnod o ansicrwydd i staff y tri sefydliad.
- Bydd yr amgylchedd y byddai'r sefydliad newydd yn gweithredu ynddo yn ddynamig ac yn gallu newid. Mae 'Cynnal Cymru Fyw' yn rhoi cyd-destun polisi pwysig a fydd yn diffinio ac yn llywio'r egwyddorion y byddai'r sefydliad yn eu dilyn yn ei benderfyniadau a'i waith. Fodd bynnag, mae llawer o'n strategaeth wedi'i nodi eisoes (gweler Atodiad 1) a bydd y polisïau a ddisgrifiwn yn 'Cynnal Cymru Fyw' yn esblygu ac yn datblygu dros amser wrth i ni ddysgu am y dull gweithredu seiliedig ar ecosystemau a'i wella. Felly, yn hytrach na mabwysiadu strwythurau ac egwyddorion sydd wedi'u cynllunio'n benodol i sicrhau'r perfformiad gorau yn erbyn ein sefyllfa bolisi bresennol, credwn mai'r dull gweithredu gorau fyddai cynllunio'r sefydliad newydd mewn ffordd sy'n ei alluogi i ymateb yn hyblyg i amrywiaeth o sefyllfaoedd yn y dyfodol ac i gymryd rhan yn esblygiad 'Cynnal Cymru Fyw' a llywio'r broses honno.

Am yr holl resymau hyn, cynigiwn y dylid sefydlu'r corff newydd, yn gyson â daearyddiaeth a diwylliant Cymru, cyn gynted â phosibl. Ein dyddiad dewisol yw Ebrill 2013, sy'n heriol ond yn gyraeddadwy yn ein barn ni. Mae'r dyddiad hwn yn adlewyrchu ein hawydd i symud yn gyflym, ynghyd â'r ffaith ei bod yn ddymunol cyflwyno'r newid ar ddechrau blwyddyn ariannol.

Serch hynny, rydym yn cydnabod bod proses drosglwyddo drefnus yn hanfodol. Os ceir unrhyw oedi yn y gwaith paratoi hwnnw am unrhyw reswm, byddem yn gohirio cyflwyno'r broses freinio tan fis Hydref 2013. Darperir ar gyfer cost oedi o'r fath yng nghostau ein hachos busnes.

Byddwn yn sicrhau bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar 'Cynnal Cymru Fyw' yn llywio'r gwaith manwl o ddatblygu'r corff newydd wrth i ni fynd ymlaen. Byddwn hefyd yn sicrhau bod ymatebion prosesau ymgysylltu ac ymgynghori'r Bil Datblygu Cynaliadwy, ynghyd ag ymgyngoriadau ar bynciau penodol megis y Strategaeth Ddŵr, yn ceisio barn a fydd yn llywio'r broses o ddatblygu ei ffurf a'i swyddogaeth.

**Cwestiwn 1: Beth yw eich barn ar ein cynnig i sicrhau trefniadau rheoli mwy integredig drwy ddod â’r tri chorff at ei gilydd a chreu un corff amgylcheddol i Gymru?**

**Cwestiwn 2: Wrth i ni ddatblygu ein cynigion ar gyfer y corff, a oes unrhyw fesurau ychwanegol y gallem eu cymryd i ymdrin â’r pryderon yr ydym wedi’u nodi yn adran 2.4 neu unrhyw bryderon eraill sydd gennych?**

# Adran 3: Pwerau Cyfreithiol

## 3.1 Ein prif bwerau

Yn 'Cymru Fyw', rydym yn nodi egwyddorion cyffredinol y dull gweithredu seiliedig ar ecosystemau, a cheisiwyd barn ar newidiadau sefydliadol, gan gynnwys dod â'r tri chorff at ei gilydd fel y'i cynigiwyd yn yr ymgynghoriad hwn. Mae ein Papur Gwyrdd diweddar, 'Cynnal Cymru Fyw', yn egluro ymhellach ein huchelgais ehangach, gan gynnwys ein bwriad i symleiddio prosesau rheoleiddio ymhellach a'n cynigion i ddatblygu trefniadau newydd i ddiogelu ein hadnoddau naturiol a'u defnyddio yn y ffordd orau.

Mae dwy brif ffordd y gallem greu'r corff newydd a throsglwyddo swyddogaethau presennol iddo: (i) drwy orchmynion o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011 (sydd ar gael yn www.legislation.gov.uk) a (ii) drwy Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'n debygol hefyd y bydd angen i ni gytuno ar orchmynion trosglwyddo swyddogaethau ar wahân ar gyfer rhai materion penodol â Llywodraeth y DU. Bydd angen sicrhau ei chydweithrediad hefyd er mwyn gosod swyddogaethau penodol ar y corff newydd arfaethedig, er enghraifft, mewn perthynas ag argyfyngau sifil posibl.

## 3.2 Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011

Yn amodol ar fodloni meini prawf penodol, mae Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn gwneud darpariaeth benodol i Weinidogion Cymru greu corff newydd a throsglwyddo swyddogaethau o'r tri phrif gorff i'r corff hwnnw, gyda'r addasiadau angenrheidiol. Mae hefyd yn darparu ar gyfer newidiadau penodol i Fyrddau Draenio Mewnol, y byddwn yn eu hystyried yn ddiweddarach yn yr ymgynghoriad hwn, ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiddymu pwyllgorau penodol. Cafodd y pwerau hyn eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth, a chynhaliwyd dadl arnynt yn Senedd y DU, yn ystod 2011, â'r bwriad clir o ddarparu'r pwerau i wneud y newidiadau a gynigir gennym i'r cyrff hyn. Mae'n debygol hefyd mai hwy fydd y ffordd symlaf a chyflymaf o gyflwyno'r newidiadau yr ydym yn eu cynnig.

Mae Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn cynnwys pwerau i alluogi Gweinidogion Cymru i ddeddfu drwy is-ddeddfwriaeth ar ffurf gorchymyn, i:

- Sefydlu corff newydd.
- Addasu unrhyw un o swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac unrhyw un o swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth sydd wedi'u datganoli i Gymru.
- Trosglwyddo'r swyddogaethau hynny (gan gynnwys swyddogaethau wedi'u haddasu) i un o'r cyrff, y corff newydd, neu unrhyw un arall sy'n cyflawni swyddogaethau sydd wedi'u datganoli i Gymru.
- Trosglwyddo unrhyw un o swyddogaethau Pwyllgor Rhanbarthol Llifogydd ac Arfordir Cymru i (a) corff newydd (b) Gweinidogion Cymru neu (c) unrhyw un arall sy'n cyflawni swyddogaethau sydd wedi'u datganoli.

- Trosglwyddo unrhyw un o’r swyddogaethau sydd wedi'u datganoli i Gymru sy'n ymwneud â'r amgylchedd o'r sawl sy'n cyflawni'r swyddogaeth honno ar hyn o bryd i (a) corff newydd, (b) Cyngor Cefn Gwlad neu (c) Asiantaeth yr Amgylchedd neu'r Comisiwn Coedwigaeth.
- Trosglwyddo unrhyw un o'u swyddogaethau hwy i (a) corff newydd (b) Cyngor Cefn Gwlad Cymru neu (c) Asiantaeth yr Amgylchedd neu'r Comisiwn Coedwigaeth.
- Addasu trefniadau cyfansoddiadol neu swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.
- Trosglwyddo unrhyw un o swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru i Weinidogion Cymru; unrhyw un arall sy'n cyflawni swyddogaethau sydd wedi'u datganoli i Gymru; cwmni cyfyngedig drwy warant; cwmni buddiannau cymunedol; neu gorff ymddiriedolwyr neu gorff anghorfforedig arall o bersonau.

Er mwyn arfer y pwerau hyn, bydd angen i Weinidogion Cymru fodloni meini prawf penodol. Mae Adran 16 o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn darparu nad yw Gweinidogion Cymru ond yn gallu gwneud gorchymyn os byddant o'r farn ei fod yn gwella'r broses o gyflawni swyddogaethau cyhoeddus, gan ystyried effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd a chan ei gwneud yn ofynnol sicrhau atebolrwydd priodol i Weinidogion Cymru.

Mae'r achos dros newid a ddisgrifir yn adran 2 yn seiliedig yn glir ar wella'r broses o gyflawni swyddogaethau cyhoeddus, gan gynnwys gwaith cyflawni gwell, costeffeithiolrwydd a gwneud penderfyniadau priodol ar lefel Cymru.

Mae Adran 16 o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011 hefyd yn nodi nad yw Gweinidogion Cymru ond yn gallu gwneud gorchymyn os nad yw'n dileu unrhyw ddiogelwch presennol, nac yn atal unrhyw un rhag parhau i arddel unrhyw hawl neu ryddid y gallai'r unigolyn hwnnw ddisgwyl parhau i'w harddel a hynny'n rhesymol.

Mae'r prif faterion o ran diogelu sy'n deillio o'n cynigion yn ymwneud â'r amgylchedd, gan gynnwys coedwigaeth. Rydym wedi egluro ym mhob rhan o'r ddogfen ymgynghori hon mai ein bwriad yw cynnal safonau amgylcheddol a fyddai'n well yn sgil symleiddio prosesau ac yn gyson â hynny, yn ein barn ni.

Byddai gan y corff newydd y pŵer i ddynodi safleoedd a ddiogelir a rheoleiddio i ddiogelu'r amgylchedd.  Fodd bynnag, nid ydym yn bwriadu rhoi unrhyw bwerau ychwanegol i'r corff newydd, ar y cam cyntaf hwn, a fyddai'n cynyddu ei allu i gyfyngu ar hawliau neu ryddid cyfreithiol, o gymharu â'r pwerau sydd gan y cyrff ar hyn o bryd. Byddwn yn sicrhau bod yr egwyddorion hyn yn sail i ddiwygiadau canlyniadol neu atodol yn ein gorchymyn.

Bydd angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol pan fydd gorchymyn yn trosglwyddo neu'n rhoi swyddogaeth i Asiantaeth yr Amgylchedd, y Comisiynwyr Coedwigaeth neu unrhyw weithredwr trawsffiniol arall, ac yn ogystal, pan fydd gorchymyn fel arall yn addasu eu swyddogaethau. Darperir y gofyniad hwn gan adran 17 o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011.

## 3.3 Ein dull gweithredu cyffredinol

Mae Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru wneud y rhan fwyaf o'r newidiadau yr ydym yn eu cynnig. Fodd bynnag, ceir cyfyngiadau cyfreithiol ac ymarferol hefyd. Nid yw'r gallu i addasu swyddogaethau yn Neddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn golygu y gallwn roi swyddogaethau newydd sbon i'r corff newydd. Felly, rydym yn bwriadu rhoi swyddogaethau i'r corff newydd arfaethedig mewn camau.

I ddechrau, yn ystod y cam cyntaf a gwmpesir gan yr ymgynghoriad hwn, byddem yn arfer y pwerau o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011 i greu'r corff. Rydym yn cynnig y bydd y gorchymyn cychwynnol yn creu'r corff newydd ac yn rhoi diben statudol iddo. Byddai hefyd yn addasu (er enghraifft, er mwyn osgoi dyblygu) swyddogaethau amrywiol Cyngor Cefn Gwlad Cymru a swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth sydd wedi'u datganoli i Gymru (a swyddogaethau unrhyw gorff arall y mae hyn yn effeithio arno; gweler adran 5), gan eu trosglwyddo hwy, ynghyd â swyddogaethau presennol nad oes angen eu haddasu, i'r corff newydd. Caiff y gwaith cychwynnol hwn ei osod yng nghyd-destun ein cynigion ehangach ar gyfer cyrff cyhoeddus yn ein Bil Datblygu Cynaliadwy.

Yn ogystal â'r newidiadau cyfreithiol, bydd sefydlu'r corff newydd yn rhoi cyfle gwirioneddol i adolygu blaenoriaethau a newid prosesau.

Bydd camau pellach, yr ymgynghorir ymhellach arnynt, yn cyflwyno unrhyw newidiadau cyfreithiol sydd eu hangen i wireddu uchelgais lawn 'Cynnal Cymru Fyw'. Rydym am ddatblygu ein cynigion ar gyfer y dull gweithredu seiliedig ar ecosystemau, cynllunio amgylcheddol a rheoleiddio yn y dyfodol, gyda mewnbwn gan y corff newydd o ddewis. Bydd y cynigion hyn, a fyddai'n ein galluogi i atgyfnerthu ein deddfwriaeth a'i moderneiddio ymhellach, yn rhan o Fil yr Amgylchedd a'r Bil Cynllunio.

Caiff y Biliau hyn eu cyflwyno o dan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud deddfau, sef Deddfau'r Cynulliad.

Byddwn yn trafod â Llywodraeth y DU y posibilrwydd o drosglwyddo swyddogaethau eraill i'r corff newydd gan Weinidogion y DU hefyd.

## 3.4 Diwygiadau canlyniadol (newidiadau i ddeddfwriaeth heb ei datganoli)

Wrth i ni ddatblygu manylion pellach ar y gorchmynion, mae'n debygol y bydd rhai elfennau o'r newid yn golygu bod yn rhaid gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth y DU. Bydd angen i ni gael cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer yr agweddau hyn.

| |
|---|
| **Cwestiwn 3: Beth yw eich barn ar y dull gweithredu fesul cam hwn? Sut y gallem ei wella?** |

# Adran 4: Diben y corff newydd

Yn yr adran hon, rydym yn disgrifio ein huchelgais ar gyfer y corff newydd, yn ogystal â’r ffordd yr ydym yn bwriadu gosod ei bwrpas cyffredinol o fewn cyd-destun. Rydym hefyd yn disgrifio rhai canlyniadau lefel uchel ac yn eu cysylltu â'r amcanion yr ydym yn eu cynnig yn seiliedig ar sut rydym yn rhagweld y bydd y corff newydd yn cyfrannu at gyflawni ein strategaethau.

## 4.1 Datblygu cynaliadwy a'r dull gweithredu seiliedig ar ecosystemau

Byddwn yn gwahodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu ar gyfer Bil Datblygu Cynaliadwy yn ystod y tymor cyfredol. Byddai un corff newydd, gan ganolbwyntio'n glir ar ddatblygu cynaliadwy a chylch gwaith o weithio gyda Llywodraeth Cymru i helpu i gydgysylltu penderfyniadau amgylcheddol, yn ein helpu i ddatblygu ein heconomi mewn ffyrdd a fyddai'n ein galluogi i fyw o fewn terfynau amgylcheddol yn well ac yn helpu i wrthdroi tueddiadau o ran bioamrywiaeth sy'n lleihau, y defnydd anghynaliadwy o adnoddau ac allyriadau nwyon tŷ gwydr cysylltiedig.

Datblygu cynaliadwy fyddai prif egwyddor drefniadol y corff newydd, gan ddefnyddio'r dull gweithredu seiliedig ar ecosystemau i lywio'r ffordd y mae'n gwneud ei waith a chan ddefnyddio gwyddoniaeth a thystiolaeth ar sail arfer gweithredol. Byddai hefyd yn gweithredu o fewn y fframwaith cyfreithiol a ddarperir gan ddeddfwriaeth ryngwladol, Ewropeaidd a'r DU. Byddai'r corff newydd yn dilyn polisïau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys yr amrywiaeth o strategaethau sydd gan Lywodraeth Cymru ar waith eisoes (gweler isod).

Felly, byddai'r corff newydd yn gweithio o fewn y fframwaith cyfreithiol a'r cyd-destun strategol a nodir yn ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy ('Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned') a'n strategaethau ehangach (Atodiad 1). Fodd bynnag, byddai ganddo gryn ddisgresiwn i lywio ein dyfodol, gan wneud penderfyniadau pwysig a fyddai'n effeithio ar ansawdd bywyd pobl yng Nghymru, ac ansawdd bywyd cenedlaethau i ddod. Byddai'r rhain yn cynnwys rheoli agweddau allweddol ar y gwaith o reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, rheoli ystad coedwigoedd Llywodraeth Cymru, cyflawni gwaith rheoleiddio amgylcheddol, penderfynu ar drwyddedau a chaniatadau, rhoi cyngor i'r llywodraeth, busnesau a'r cyhoedd, a gwneud penderfyniadau yn ei waith gweithredol o ddydd i ddydd.

Mae'r penderfyniadau hyn yn hollbwysig i ddyfodol Cymru. Byddant yn cael effaith uniongyrchol ar ansawdd bywyd pobl yng Nghymru ac, i raddau helaeth, byddant yn pennu ansawdd yr amgylchedd a gwerth yr asedau amgylcheddol y bydd ein plant a'n hwyrion yn eu hetifeddu. Bydd y penderfyniadau eu hunain a'r ffordd y cânt eu gwneud yn gosod y cyd-destun ar gyfer penderfyniadau datblygu a buddsoddi yng Nghymru, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r cyd-destun hwn yn hollbwysig i'n heconomi a'r swyddi y mae'n eu darparu.

Mae'n rhaid i benderfyniadau rheoleiddio ddiogelu'r awyr, dŵr, ansawdd y pridd a bioamrywiaeth er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd, yn ogystal â'r amgylchedd ei hun. Ond mae'n rhaid i ni hefyd ddatblygu gwerth ein hasedau naturiol, er mwyn darparu

gwasanaethau megis bwyd, dŵr, pren a chyfleoedd hamdden, i gefnogi cymdeithas a helpu ein heconomi i dyfu.

Wrth i'r corff wneud ei benderfyniadau, byddai angen iddo integreiddio prosesau diogelu a rheoli'r amgylchedd, a buddiannau'r amgylchedd i bawb, â'r angen i ddatblygu economi Cymru. Mae'r mater hwn wrth wraidd datblygu cynaliadwy a'r dull gweithredu seiliedig ar ecosystemau – gan sicrhau ein bod yn pennu llwybr datblygu hirdymor i'n cymdeithas ac yn hwyluso datblygu cymdeithasol ac economaidd cynaliadwy, tra'n diogelu ac yn gwella'r amgylchedd yr ydym yn byw ynddo, drwy sicrhau bod pob un ohonom yn byw ac yn gweithio'n gynaliadwy.

## 4.2 Cyflawni Strategaethau Llywodraeth Cymru

Mae amrywiaeth eang o strategaethau a pholisïau'r Llywodraeth y byddem yn disgwyl i gorff newydd helpu i'w cyflawni a sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig. Ymhlith y rhain mae:

- Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru'n Un; Cenedl Un Blaned.
- Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru.
- Cynnal Cymru Fyw: Papur Gwyrdd.
- Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd.
- Polisi Cynllunio Cymru.
- Cynllun Datblygu Gwledig a Glastir.
- Strategaeth Coetir Cymru.
- Strategaeth Wastraff Cymru.
- Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.
- Datganiad Sefyllfa ar y Polisi Strategol ar Ddŵr a'r Strategaeth Ddŵr arfaethedig.
- Strategaeth Ansawdd Aer.

Mae Atodiad 1 yn crynhoi prif ddiben y strategaethau hyn ac yn egluro rôl y corff newydd yn y gwaith o'u cyflawni yn fras.

## 4.3 Ein Huchelgais

Ein her gyffredinol, a nodir yn 'Cynnal Cymru Fyw', yw sicrhau ecosystemau gweithredol iach sy'n amrywiol, yn gynhyrchiol ac a gaiff eu rheoli'n gynaliadwy, sy'n gwneud gwahaniaeth i'r gymdeithas gyfan, gan gefnogi cyflogaeth a lles.

Ein gweledigaeth yw corff annibynnol a phroffesiynol uchel ei barch sy'n chwarae rhan ganolog o ran datblygu cynaliadwy yng Nghymru yn y dyfodol, sy'n meddu ar yr holl adnoddau sydd eu hangen i sicrhau y gwneir y defnydd gorau a mwyaf cynaliadwy o'n hadnoddau naturiol, sef tir, awyr, dŵr a bioamrywiaeth Cymru, er budd cyhoeddus yn yr hirdymor.

Yn unol â'r cyd-destun strategol a nodir yn Atodiad 1, rydym yn cynnig y byddai rôl y corff newydd yn canolbwyntio ar ein helpu i gyflawni nodau strategol Llywodraeth Cymru i Gymru a gwireddu ein huchelgais o ddefnyddio a rheoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy yn yr hirdymor. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn disgwyl i'r corff newydd gymhathu a chyfuno'r agweddau gorau ar y tri chorff presennol er mwyn rhoi sefydliad hyblyg, hyddysg ac arloesol i ni sy'n canolbwyntio ar gyflawni, sy'n ymsefydlu'n gyflym ac yn cael ei barchu'n fuan gan bobl Cymru.

## 4.4 Nod a chanlyniadau Strategol

Rydym yn cynnig sefydlu diben statudol i'r corff sy'n adlewyrchu ein bwriad y byddai'r sefydliad newydd hwn yn arwain at newid sylweddol yn y ffordd y caiff ein hadnoddau naturiol eu rheoli a'u defnyddio'n gynaliadwy. Caiff union eiriad y cymalau i ddiffinio'r diben hwn ei bennu ar ôl i'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gael eu hystyried.

Gwnaethom ddatblygu nod lefel uchel dangosol ar gyfer y corff fel cynnig gweithredol yn yr achos busnes[5]. Yn ystod y broses o ddatblygu'r achos busnes, cawsom adborth gan randdeiliaid, sydd wedi ein galluogi i ddatblygu ein syniadau ymhellach.

Rydym o'r farn y dylai nod arfaethedig y corff newydd fod fel a ganlyn:

> ***'Cynnal, gwella a datblygu adnoddau naturiol Cymru, er mwyn bod o fudd i bobl ac economi Cymru nawr ac yn y dyfodol.'***

Rydym hefyd yn bwriadu y bydd y darpariaethau sy'n datgan nod y corff yn cwmpasu nifer o ganlyniadau strategol a fydd yn helpu i egluro ei nod cyffredinol:

1. Cyfrannu at ddiogelu iechyd a diogelwch y cyhoedd ac at hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a chyfleoedd hamdden awyr agored.
2. Atal, lleihau, unioni neu liniaru effaith niweidiol llygredd, rhywogaethau estron a chlefydau ar yr amgylchedd.
3. Hyrwyddo'r gwaith o gadw, adfer a gwella ecosystemau.
4. Sicrhau y caiff adnoddau naturiol a gwasanaethau ecosystemau eu defnyddio a'u rheoli'n gynaliadwy.
5. Cyfrannu at liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd ac addasu iddynt.

Rydym yn rhagweld addasu adran 4 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, fel bod Gweinidogion Cymru yn parhau i fod â'r pŵer i roi canllawiau statudol i'r corff ar, ymhlith pethau eraill, y cyfraniad y byddai'n briodol i'r corff newydd ei wneud i sicrhau datblygu cynaliadwy (a'i ddibenion eraill). Byddai canllawiau o'r fath yn destun ymgynghori i sicrhau tryloywder. Wrth ddatblygu'r canllawiau hyn, byddem yn ystyried cynigion i gael fframwaith datblygu cynaliadwy ehangach ar gyfer cyrff yn y sector cyhoeddus.  Yr ydym yn disgwyl ei sefydlu drwy'r Bil Datblygu Cynaliadwy.

[5] Sicrhau bod pobl ac economi Cymru yn cael budd o amgylchedd cynyddol amrywiol a chydnerth.

**Cwestiwn 4: A yw'r cynigion hyn yn sail dda i brif nod a chanlyniadau strategol y corff? Sut y gellid eu gwella?**

## 4.5 Fframwaith Cyflawni – amcanion a mesurau llwyddiant

Er mwyn nodi diben y corff yn fanylach a helpu i sicrhau bod y corff yn canolbwyntio ar gyflawni ei gyfrifoldebau statudol a'i swyddogaethau cyfreithiol, yn ogystal â blaenoriaethau eraill y Llywodraeth, byddem yn datblygu fframwaith cyflawni i'r corff. Byddai hyn yn nodi ein hamcanion ar gyfer y corff, wedi'u hategu gan ddatganiadau llwyddiant, yn gysylltiedig â nod y corff newydd a'r canlyniadau yn ein strategaethau yr ydym am i'r corff gyfrannu atynt. Ceir enghraifft o fframwaith posibl yn Atodiad 5.

Yn ogystal, rydym yn bwriadu ategu'r llythyr Cylch Gwaith a'r Memorandwm Ariannol manwl y byddwn yn eu defnyddio i noddi'r corff drwy gyhoeddi canllawiau manylach ar ein disgwyliadau mewn perthynas â chefnogi ein hamcanion polisi strategol, yn ogystal â darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid ac sy'n 'seiliedig ar le' i bob defnyddiwr.

Byddem yn disgwyl i'r corff newydd ddefnyddio'r fframwaith cyflawni a'r canllawiau ategol fel man cychwyn ar gyfer ei waith cynllunio a rheoli perfformiad strategol ei hun i gyflawni ein hamcanion.

**Cwestiwn 5: Beth yw eich barn ar y cynigion mewn perthynas â'r fframwaith cyflawni?**

# Adran 5: Swyddogaethau'r corff

## 5.1 Y tri chorff (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru)

Am y rhesymau rydym wedi'u nodi eisoes, rydym yn cynnig trosglwyddo (i'r graddau ag y maent yn gymwys i Gymru) bob un o brif swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth i'r sefydliad newydd.

Ar hyn o bryd, mae'r tri chorff presennol yn cyflawni amrywiaeth eang o swyddogaethau a adlewyrchir yn y ddeddfwriaeth gyfredol. Mae Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn ein galluogi i *addasu* swyddogaethau a *throsglwyddo'r* swyddogaethau hyn wedi'u haddasu yn ogystal â throsglwyddo'r rhai nad ydynt wedi newid i'r corff newydd. Mae'r un pwerau hyn hefyd yn ein galluogi i ddeddfu ar gyfer sut y cyflawnir y swyddogaethau hyn. Hynny yw, maent yn ein galluogi i bennu'r materion y mae'n rhaid i'r corff newydd arfaethedig eu hystyried wrth gyflawni ei swyddogaethau.

Er mwyn cyflawni ein nodau strategol a'r amcanion yr ydym wedi'u nodi, byddem yn disgwyl nodi swyddogaethau (neu feysydd gwaith) i'r corff, yn ystod y cam newid cyntaf, yn seiliedig ar y darpariaethau deddfwriaethol presennol. Byddai'r rhain yn cael eu mynegi fel dyletswyddau a phwerau.

Gellir dadansoddi'r swyddogaethau hyn yn dri phrif gategori:

- Swyddogaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol (dyletswyddau), neu'n caniatáu (pwerau) i'r corff wneud gwaith. Bydd y rhain yn aml yn gysylltiedig â gweithgareddau neu feysydd gwaith penodol. Crynhoir y rhain yn Nhabl 1 (gweler tudalen 38).
- Pwerau cyffredinol (megis y gallu i godi tâl neu erlyn achosion) sy'n galluogi'r corff i gyflawni ei swyddogaethau mewn ystod eang o'i waith (Tabl 2).
- Dyletswyddau i ystyried materion wrth gyflawni ei swyddogaethau – er enghraifft i ystyried ffactorau gwahanol, megis cadwraeth neu gost a budd cam gweithredu (Tabl 3).

Yr egwyddor gyffredinol sy'n sail i'n cynigion yw mai ein bwriad yn ystod y cam cychwynnol, oni nodir fel arall, fyddai trosglwyddo swyddogaethau perthnasol y tri phrif gorff i'r corff newydd. Wrth wneud y gorchymyn, ein nod fyddai rhesymoli swyddogaethau dyblyg, gan fanteisio ar y cyfle i symleiddio neu ddiweddaru'r ddeddfwriaeth.

Bwriedir i'r meysydd gwaith neu'r swyddogaethau a ddisgrifir yn y tablau gwmpasu prif swyddogaethau'r corff newydd, sydd eu hangen yn ein barn ni i gyflawni'r canlyniadau strategol a'r amcanion manylach yr ydym wedi'u disgrifio uchod ac yn Atodiadau 1 a 5. Fodd bynnag, byddent yn cael eu hategu drwy drosglwyddo'r dyletswyddau a'r pwerau manwl niferus a geir yn y ddeddfwriaeth bresennol.

Wrth gwrs, byddai'n ofynnol i'r corff gydymffurfio â deddfwriaeth gyffredinol, megis deddfwriaeth iechyd a diogelwch, yr iaith Gymraeg a chydraddoldeb. Byddem yn disgwyl iddo ymgynghori ymhellach ar ei gynllun iaith Gymraeg.

**Cwestiwn 6: A yw'r swyddogaethau a ddisgrifir yn nhablau 1 i 3 yn grynodeb rhesymol o'r rhai sydd eu hangen? Sut y gellid eu gwella?**

## 5.2 Swyddogaethau Eraill

### 5.2.1 Mordwyaeth

Bu mordwyaeth yn destun adolygiad gan Lywodraeth y DU yn ddiweddar. Mae'r adolygiad hwnnw wedi dod i'r casgliad y caiff swyddogaethau a phwerau Dyfrffyrdd Prydain eu trosglwyddo i sefydliad cydfuddiannol yn 2013. Caiff Hydoedd Mordwyadwy Asiantaeth yr Amgylchedd eu hadolygu ymhellach yn 2014.

Yng Nghymru, Asiantaeth yr Amgylchedd yw'r awdurdod mordwyo ar gyfer Afon Gwy ac Afon Dyfrdwy ar hyn o bryd ac arweinir y gwaith yng Nghymru.

Bwrdd Gwarchod Dyfrdwy yw'r awdurdod harbwr, mordwyo a goleudy lleol ar gyfer y rhan fwyaf o Aber Afon Dyfrdwy yng Ngogledd Cymru. Fe'i crëwyd gan Ddeddf Bwrdd Gwarchod Dyfrdwy 1889 i gadw, gwella a rheoli mordwyaeth Afon Dyfrdwy rhwng Caer a'r aber. Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru sydd bellach yn cyflawni dyletswyddau a rhwymedigaethau'r Bwrdd Gwarchod.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi rhoi gwybod nad yw am gadw'r cyfrifoldeb am Fwrdd Gwarchod Dyfrdwy. Mae'r Bwrdd Gwarchod yn arbennig o bwysig i Gymru a'r economi leol, oherwydd gwerth cadwraeth y tir a reolir yn Aber Afon Dyfrdwy, i reoli'r perygl o lifogydd, ac am resymau economaidd (er enghraifft caiff adenydd A380 Airbus eu cludo ar hyd Afon Dyfrdwy). Ein hopsiwn dewisol fyddai trosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Gwarchod Dyfrdwy o Asiantaeth yr Amgylchedd i'r corff newydd arfaethedig.

Am nad yw Bwrdd Gwarchod Dyfrdwy yn un o swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd sydd wedi'u datganoli i Gymru, ni allwn sicrhau'r broses drosglwyddo hon yn y gorchymyn arfaethedig o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Byddwn yn trafod yr opsiynau ar gyfer newid â'r Adran Drafnidiaeth. Yn y cyfamser, bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn parhau i gyflawni dyletswyddau a rhwymedigaethau'r Bwrdd Gwarchod.

Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd mewn perthynas ag Afon Gwy.

## 5.3 Newidiadau i swyddogaethau Llywodraeth Cymru

Yn ystod y broses o ddatblygu'r achos busnes, rydym wedi ystyried amrywiaeth o swyddogaethau a gyflawnir gan Lywodraeth Cymru ac eraill ar hyn o bryd, a ddylai gael eu trosglwyddo i'r corff newydd. Rydym hefyd wedi ystyried a ddylai rhai o swyddogaethau presennol y tri chorff gael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru.

### 5.3.1 Polisi

Un o'r egwyddorion sy'n sail i'n cynigion yw mai Llywodraeth Cymru a ddylai ddatblygu polisi strategol, gan gynnwys deddfwriaeth ac mai'r corff a ddylai ymgymryd â gwaith cyflawni gweithredol (a all gynnwys cyngor technegol ar oblygiadau polisi a darparu tystiolaeth a data).

Byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid i rai aelodau o staff sy'n gwneud gwaith polisi yn y cyrff presennol drosglwyddo i Lywodraeth Cymru. Mae'r niferoedd yn annhebygol o fod yn fawr, ac am nad yw hyn yn golygu newid swyddogaethol, mae'n annhebygol y bydd angen cymryd camau gweithredu deddfwriaethol penodol (ac eithrio eu cynnwys mewn gorchymyn trosglwyddo staff o bosibl). Byddai manylion hyn yn cael eu pennu fel rhan o drefniadau cynllunio sefydliadol.

Nid oes adnodd penodol wedi'i nodi yn Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd sy'n arwain gwaith monitro polisi, deddfwriaeth a chydymffurfiaeth ym maes coedwigaeth. Er bod Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi cyflawni'r rôl hon i Weinidogion Cymru, mae cyfle i wella'r gwaith o weithredu polisi coedwigaeth, a gallu rhanddeiliad i gysylltu â'r Llywodraeth, drwy newid ffurfiol, drwy drosglwyddo polisi coedwigaeth i Lywodraeth Cymru.

Byddai hyn hefyd yn cefnogi rôl noddi Llywodraeth Cymru ar gyfer cylch gwaith coedwigaeth y corff newydd gan gynnwys iechyd coed a byddai'n ein galluogi i ymgymryd â'r rôl gyswllt ryngadrannol i gyfrannu at ddatblygu polisi Coedwigaeth Ryngwladol y DU. Byddai'r tîm hefyd yn ymgymryd â'r rôl cydweithredu ar bolisi coedwigaeth gyda Defra, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Mae'r tîm yn debygol o fod yn fach a byddai'n gweithio'n agos gyda chydweithwyr coedwigaeth technegol yn y corff i gynnal cysylltiadau agos rhwng polisi ac arfer.

Yn unol â'r gydnabyddiaeth bod datblygu polisi yn broses barhaus â llawer o gamau, byddai'r corff yn parhau i fod yn hanfodol i broses effeithiol Llywodraeth Cymru o ddatblygu polisi.

### 5.3.2 Trwyddedu morol (Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009)

Cyflawnir gwaith trwyddedu morol gan dîm bach yn Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Mae nifer o resymau dros ystyried cynnwys y swyddogaethau hyn yn y corff newydd, sef:

- Byddai'n symleiddio'r gyfundrefn reoleiddio ac yn darparu un pwynt cyswllt; mae'r trwyddedau hyn yn aml yn debyg i drwyddedau eraill a fyddai'n cael eu darparu gan un corff.
- Mae cynnwys y tîm hwn o fewn grŵp rheoleiddio ehangach, llawer mwy yn gwella cydnerthedd.
- Byddai gwneud y corff newydd yn gyfrifol am y penderfyniadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflawni'r rôl apeliadol.

Byddai'r gwaith hwn wedi'i osod yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy a diben cyffredinol y corff a drafodir mewn mannau eraill o'r ddogfen hon. Mae'r fframwaith datblygu cynaliadwy yn cynnwys Datganiad Polisi Morol y DU gyfan[6] y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef wrth wneud penderfyniadau megis trwyddedu, a bydd yn cynnwys y Cynlluniau Morol cenedlaethol a gaiff eu datblygu ar gyfer moroedd Cymru[7].

Felly, rydym yn cynnig trosglwyddo'r swyddogaethau trwyddedu morol o Lywodraeth Cymru wrth i'r corff newydd gael ei sefydlu.

### 5.3.3 Trwyddedau Bywyd Gwyllt

Mae gwaith trwyddedu bywyd gwyllt yn gweithredu deddfwriaeth sy'n ymwneud â gwarchod amrywiaeth o rywogaethau gan gynnwys adar, moch daear a Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop.

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am bolisi bywyd gwyllt gan gynnwys moch daear ac yn rhoi trwyddedau o dan adran 10(2) o Ddeddf Gwarchod Moch Daear 1992, sy’n gysylltiedig yn fras â dibenion yn ymwneud â gweithrediadau amgylcheddol a choedwigaeth, atal clefydau rhag lledaenu, difrod i eiddo, a dibenion draenio tir. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru hefyd yn gyfrifol am roi trwyddedau moch daear o dan adran 10(1) o’r Ddeddf honno at ddibenion cadwraeth wyddonol, addysg a datblygu. Yn eu tro, mae gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru swyddogaeth i roi trwyddedau mewn perthynas â rheoli llwynogod er mwyn diogelu da byw, anifeiliaid hela a bywyd gwyllt o dan adran 10(3). Mae nifer y trwyddedau a roddir gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru yn gymharol fach.

Mae gwaith gwarchod moch daear yn fater sensitif ag effaith fawr bosibl. Mae mwy na 60% o'r gwaith trwyddedu a wneir yng Nghymru yn ymwneud â thrwyddedau a roddir i'r Comisiwn Coedwigaeth ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Am y rhesym hwnnw, rydym o’r farn nad yw’r opsiwn o drosglwyddo’r holl waith trwyddedu mewn perthynas â Moch Daear i’r corff newydd yn opsiwn da.

Felly, rydym yn ceisio barn ar ddau opsiwn, naill ai:

(i) cyfuno’r swyddogaeth hon yn Llywodraeth Cymru, lle mae rôl arbenigol wedi’i sefydlu eisoes, neu

(ii) cadw’r gwahaniaeth cyfredol gyda swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru mewn perthynas â thrwyddedu moch daear yn cael eu trosglwyddo i’r corff newydd a chyda Llywodraeth Cymru yn cadw’r swyddogaethau sydd ganddi ar hyn o bryd.

Mewn perthynas â Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop, a warchodir gan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010, a dyletswyddau eraill o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, unwaith eto mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru yn cyflawni rolau penodol, gan gynnwys fel yr

[6] http://cymru.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/marinefisheries/planning/?lang=cy.
[7] http://cymru.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/marineplanning/?lang=cy.

awdurdod trwyddedu, i weithredu'r ddeddfwriaeth hon ac mae cyfle i symleiddio trefniadau presennol.

Mae'r dadleuon ar gyfer symleiddio a chryfhau’r gyfundrefn reoleiddio sy'n gymwys i drwyddedu morol yr un mor gymwys i'r trefniadau hyn. Felly, bydd cyfuno'r swyddogaethau hyn yn y corff newydd arfaethedig o fudd. Fodd bynnag, pe cyflwynid y newid, byddai angen ymdrin â'r posibilrwydd o achosion o wrthdaro buddiannau â swyddogaethau gweithredol o ran hunandrwyddedu wrth ddatblygu cynllun sefydliadol y corff newydd. Er enghraifft, efallai y byddai angen i'r timau a fyddai'n gyfrifol am reoli tir yn y corff fod ar wahân i'r tîm trwyddedu bywyd gwyllt.

## 5.3.4 Iechyd Coed a Phlanhigion

Mae'r trefniadau rheoleiddio presennol ar gyfer iechyd planhigion ac iechyd coed yn cynnwys Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth fel awdurdodau ar wahân gyda’r naill yn gyfrifol am iechyd planhigion a’r llall am iechyd coed mewn coedwigoedd. Wrth greu'r corff newydd, mae cyfle i resymoli'r trefniadau hyn.

Mewn perthynas ag iechyd coed, ein cynnig yw y byddai'r corff newydd yn cyflawni pob un o'r swyddogaethau statudol a gweithredol o ran iechyd coed ar gyfer pob coeden mewn unrhyw sefyllfa yng Nghymru. Byddai'r corff hefyd yn gyfrifol am weithio gyda'r holl asiantaethau trawsffiniol perthnasol eraill ar y materion gweithredol hyn a materion cysylltiedig. Yn ein barn ni, byddai'r newid arfaethedig hwn yn cynnig cyfle sylweddol i feithrin cysylltiadau gwell rhwng gallu monitro a gwyliadwriaeth ehangach y corff newydd.

Byddem yn ceisio cyfuno'r swyddogaethau monitro polisi, deddfwriaeth a chydymffurfiaeth ar gyfer iechyd coed (gan gynnwys coed mewn coedwigoedd) yn Llywodraeth Cymru.

Mae ein cynigion ar gyfer polisi coedwigaeth yn berthnasol yn y cyd-destun hwn.

Byddai'r trefniadau arfaethedig mewn perthynas ag iechyd coed yn adlewyrchu'r trefniadau presennol sydd gan Lywodraeth Cymru o ran iechyd a hadau planhigion i bob diben lle mae’r Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd (Fera) yn cyflawni swyddogaethau statudol a gweithredol yn ymwneud ag iechyd planhigion yng Nghymru fel y'u nodwyd yng Nghoncordat Iechyd a Hadau Planhigion rhwng Llywodraeth Cymru a Fera. Nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau i rôl Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag iechyd planhigion sy'n cynnwys monitro polisi, deddfwriaeth a chydymffurfiaeth.

Rydym yn cydnabod nad yw clefydau yn parchu ffiniau. Yn unol â hynny, rydym yn bwriadu bod yn gwbl ymrwymedig o hyd i weithio ar faterion o ran iechyd coed a phlanhigion ar lefel y DU pan fo'n briodol. Mae hyn yn enwedig o berthnasol ar gyfer yr ymchwil arbenigol sydd ei hangen i'n helpu i ddatblygu ymatebion polisi a gweithredol.

### 5.3.5 Amaeth-amgylchedd a Physgodfeydd Môr

Glastir, mewn perthynas â rheoli tir ac agweddau ar bysgodfeydd môr ar gyfer gwaith rheoli morol cynaliadwy, yw swyddogaethau Llywodraeth Cymru sy'n cael dylanwad mawr ar y ffordd y caiff ein hadnoddau naturiol eu rheoli, yn ogystal ag ar ein canlyniadau amgylcheddol a datblygu cynaliadwy yng Nghymru.

Daeth Elfen Cymru Gyfan Glastir yn weithredol ym mis Ionawr 2012 a bwriedir cyflwyno'r Elfen wedi'i Thargedu ym mis Ionawr 2013. Ar y cyfan, bydd Glastir yn cynyddu'n raddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, yn enwedig yng nghyd-destun y ffaith bod miloedd o gytundebau o dan gynlluniau amaeth-amgylchedd presennol (Tir Gofal a Thir Cynnal) wedi'u hymestyn tan ddiwedd 2013. Yn ogystal, gallai'r cynigion presennol gan y Comisiwn Ewropeaidd i ddiwygio Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yr EU ymhellach, gan effeithio ar daliadau uniongyrchol i ffermwyr a'r cymorth a fyddai ar gael o dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014, fod â goblygiadau pellgyrhaeddol. Caiff y broses o reoli pysgodfeydd ar gyfer y rhan fwyaf o stociau ei llywodraethu gan Bolisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC) yr EU sy'n cael ei ddiwygio'n sylweddol hefyd ar hyn o bryd. Ar gyfer prosesau diwygio PAC a PPC, mae angen mewnbwn polisi a mewnbwn gwleidyddol mawr gan Lywodraeth Cymru a bydd yr angen hwnnw yn parhau.

Yn ogystal, byddai graddau unrhyw broses i drosglwyddo'r swyddogaethau hyn yn ychwanegu'n sylweddol at risgiau gweithredu cyffredinol. Am y rhesymau hyn, ni chynigir newid y trefniadau presennol.

**Cwestiwn 7: Beth yw eich barn ar y cynigion ar gyfer newid swyddogaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Trwyddedu Morol a Bywyd Gwyllt ac Iechyd Coed a Phlanhigion? Sut y gellid eu gwella?**

## 5.4 Ymchwil a Thystiolaeth

Ar hyn o bryd, datblygir ymchwil a thystiolaeth o fewn y tri chorff a Llywodraeth Cymru, drwy ymchwil a gomisiynir yn allanol a thrwy ymchwiliadau uniongyrchol. Er ei bod yn bwysig y dylai'r corff newydd allu comisiynu ymchwil a datblygu cyngor ei hun, credwn y gellir gwella trefniadau cydgysylltu a chomisiynu i wella effeithlonrwydd, sicrhau na cheir achosion o ddyblygu gwaith a chysoni buddsoddiad mewn ymchwil â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Dylai'r gwaith canolog o gydgysylltu a sefydlu un fframwaith ar gyfer comisiynu ymchwil allanol, mewnbwn i raglenni ymchwil y DU a threfniadau cytundebol â Chanolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru gael ei arwain gan Lywodraeth Cymru. Er mwyn ategu'r dull gweithredu hwn, byddai'r corff yn cadw adnoddau ymchwil ac ymchwilio, a fyddai'n gweithio o fewn y fframwaith a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru.

Cyflawnir ymchwil i goedwigoedd yn genedlaethol ar hyn o bryd, wedi'i hariannu gan Defra, ar ran y tri chorff. Byddem yn disgwyl i'r corff newydd arfaethedig barhau i gefnogi'r trefniadau hyn a chymryd rhan ynddynt, gan weithio gyda FCGB.

Un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru fyddai i'r corff newydd fanteisio ar y cyfle i gasglu tystiolaeth am faterion amgylcheddol ar lawr gwlad yng Nghymru i lywio ymyriadau.

**Cwestiwn 8: A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer cydgysylltu buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn ymchwil amgylcheddol? Sut y gallem eu gwella?**

## 5.5 Byrddau Draenio Mewnol

Mae Byrddau Draenio Mewnol (BDMau) yn gyrff statudol annibynnol sy'n gyfrifol am systemau draenio tir mewn ardaloedd lle y ceir anghenion draenio arbennig, a elwir yn ardaloedd draenio mewnol. Ar hyn o bryd, Asiantaeth yr Amgylchedd yw'r BDM ar gyfer 11 o ardaloedd draenio mewnol yng Ngogledd Cymru. Mae gan dair ardal ddraenio fewnol BDMau penodedig:

- BDM Caldicot  a Gwynllŵg (yn gyfan gwbl yng Nghymru).
- BDM Rhannau Isaf Afon Gwy (yn bennaf yng Nghymru ac yn rhannol yn Lloegr).
- BDM Powysland (yn bennaf yng Nghymru ac yn rhannol yn Lloegr).

Mae'r rhain yn cwmpasu 20,000 hectar ac yn codi dros £1.3m o ardollau bob blwyddyn i ariannu gweithgareddau yn eu hardaloedd.

Mae Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn rhoi pwerau penodol i wneud newidiadau i drefniadau BDMau, gan gynnwys rhwymedigaeth i ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol ar newidiadau i BDMau nad ydynt yn gyfan gwbl yng Nghymru.

Mae nifer o fanteision yn deillio o ymgorffori'r tri BDM annibynnol yn y corff newydd:

- Llywodraethu gwell. Mae nifer o bryderon wedi'u codi mewn adolygiadau blaenorol ynghylch y gwaith o lywodraethu trefniadau BDMau a'u huniondeb yng Nghymru a Lloegr. Byddai uno'r swyddogaethau hyn yn y corff newydd yn gosod trefniadau llywodraethu ac ariannol mewn strwythur mwy cadarn.
- Cydnerthedd ac arbedion maint.
- Trefniadau ariannu symlach. Ar hyn o bryd, mae Asiantaeth yr Amgylchedd a BDMau yn codi ardoll ar ei gilydd ac yn codi ardoll ar awdurdodau lleol. Byddai proses uno yn symleiddio'r trefniadau hyn.

Am y rhesymau uchod, rydym yn ystyried ymgorffori'r holl ardaloedd draenio mewnol (y rhai a reolir gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar hyn o bryd a'r rhai sy'n sefydliadau ar wahân ar hyn o bryd) yn y corff newydd, a fyddai'n golygu trosglwyddo swyddogaethau'r tri BDM sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru iddo.

Mae'r BDMau sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru yn cyflwyno rhagor o wybodaeth i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r adolygiad hwn. Felly, rydym yn cydnabod bod angen ystyried hyn ymhellach gyda'r BDMau a Defra cyn i benderfyniad terfynol gael ei wneud. Cynhelir ymgynghoriad pellach ar y mater penodol hwn maes o law.

## Adran 6: Llywodraethu, Atebolrwydd a Thryloywder

Yn yr adran hon, rydym yn nodi ein cynigion ar gyfer statws y corff a sut y byddai'n cael ei lywodraethu. Yn ogystal, rydym yn disgrifio ein cynigion ar gyfer y cysylltiadau â Llywodraeth Cymru i sicrhau y byddai'r corff yn gwbl atebol i Weinidogion wrth iddo gyflawni eu hamcanion gan ddefnyddio’r adnoddau sydd ar gael iddo. Rydym hefyd yn disgrifio'r trefniadau ar gyfer cysylltu â chwsmeriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys dulliau o sicrhau tryloywder llwyr yng ngwaith y corff.

### 6.1 Statws y corff

Mae gan bob un o'r tri chorff presennol statws ychydig yn wahanol a pherthynas ychydig yn wahanol â Llywodraeth Cymru. Disgrifir y trefniadau hyn yn fras yn Atodiad 4.

Byddai'r corff newydd yn cael ei sefydlu fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Byddai bwrdd gan y corff, â Chadeirydd annibynnol ac aelodau wedi'u penodi gan Weinidogion Cymru. Byddai'r broses benodi yn cael ei rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus a byddai penodiadau yn cael eu gwneud yn unol â Chod Ymarfer y Comisiynydd ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus.

Mae hyn yn golygu y byddai'r bwrdd yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru yn ei benderfyniadau ac wrth iddo gyflawni ei waith. Mae nifer o fanteision i'r trefniant hwn:

- Byddai cyngor a phenderfyniadau allweddol yn annibynnol, a byddent yn cael eu gweld felly, er mwyn cynnal hyder y cyhoedd. Byddai hyn yn cynnwys cyngor amgylcheddol a chyngor ar reoli llifogydd i awdurdodau cynllunio a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datblygiadau a phenderfyniadau ar gynigion polisi, trwyddedu ac erlyniadau.
- Ni fyddai Gweinidogion Cymru yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau. Byddent yn cadw eu rôl apeliadol a'u pwerau galw i mewn a byddai ganddynt bwerau i gyfarwyddo.
- Ni fyddai Gweinidogion Cymru fel arfer yn rhan o ymateb gweithredol i ddigwyddiadau (e.e. llifogydd, achosion o lygredd).

### 6.2 Trefniadau llywodraethu'r corff newydd

Mae trefniadau llywodraethu presennol bwrdd y tri phrif gorff yn darparu rhwng 8 ac 15 o aelodau yr un, gan ddibynnu ar y sefydliad. Gan ystyried ei holl swyddogaethau, rydym yn cynnig y dylai fod gan y corff newydd fwrdd â thua 12 o aelodau.

Byddai aelodau yn cael eu penodi'n seiliedig ar allu, er y byddem yn disgwyl i'r bwrdd fod ag aelodau y mae eu profiad yn cynrychioli amrywiaeth o fuddiannau (e.e. diogelu a gwella'r amgylchedd, llywodraeth leol, busnes a diwydiant, coedwigaeth, amaethyddiaeth, pysgodfeydd, hamdden a thwristiaeth). Yn ogystal,

byddai angen sicrhau bod cyfle cyfartal ac amrywiaeth yn rhan annatod o'r broses benodi, gan gydnabod bod angen i gyrff cyhoeddus adlewyrchu'r gymdeithas gyfan.

Rôl y bwrdd fyddai darparu arweiniad effeithiol, diffinio a datblygu cyfeiriad strategol a phennu amcanion heriol. Byddai'r bwrdd yn hyrwyddo safonau cyllid cyhoeddus uchel ac yn cynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian. Byddai'n sicrhau y caiff gweithgareddau'r corff newydd eu cyflawni'n effeithlon ac yn effeithiol; a byddai'n monitro perfformiad er mwyn sicrhau bod y corff yn cyflawni ei nodau, ei amcanion a'i dargedau perfformiad yn llawn.

Byddai Prif Swyddog Gweithredol y corff yn cael ei ddynodi gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r Prif Swyddog Gweithredol yn cael ei benodi gan y bwrdd gyda chytundeb Gweinidogion Cymru. Yn rhinwedd ei swydd fel y Swyddog Cyfrifyddu, nodir cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Gweithredol ym Memorandwm Llywodraeth Cymru, "Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru". Byddai'r Prif Swyddog Gweithredol yn bersonol gyfrifol am stiwardio'r arian cyhoeddus y mae'n gyfrifol amdano'n briodol; am weithredu a rheoli'r corff o ddydd i ddydd ac am sicrhau y bodlonir gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Cyfrifyddu, byddai'r Prif Swyddog Gweithredol yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru am ei berfformiad a'r defnydd o arian cyhoeddus.

Er y byddai'r Prif Swyddog Gweithredol, yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Cyfrifyddu, yn bersonol gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian, nid yw hyn yn tynnu mewn unrhyw ffordd oddi ar gyfrifoldeb aelodau'r bwrdd, y byddai gan bob un ohonynt ddyletswydd i weithredu mewn ffordd sy'n hyrwyddo safonau cyllid cyhoeddus uchel ac am sicrhau bod gweithgareddau'r corff yn cael eu cyflawni'n effeithlon ac yn effeithiol. Byddai'r bwrdd yn dirprwyo ei swyddogaethau i swyddogion drwy gynllun dirprwyo sy’n cwmpasu materion ariannol ac anariannol.

## 6.3 Llywodraethu rhyngwladol a thrawsffiniol

Byddai'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu rhyngwladol, er enghraifft ymgysylltu ag Ewrop, yn cael eu harwain gan y DU i raddau helaeth o hyd, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, efallai y byddai angen i'r corff newydd a/neu Lywodraeth Cymru neilltuo adnoddau ychwanegol i sicrhau y câi buddiannau Cymru eu cynrychioli'n briodol mewn trafodaethau yn y DU a thrafodaethau rhyngwladol mewn perthynas â materion rheoleiddio amgylcheddol a choedwigaeth.

Mae amrywiaeth o ddulliau, megis gweithgorau ar y cyd, ar waith ar hyn o bryd i gydgysylltu gwaith datblygu polisi ac ymchwil i'r DU gyfan, er enghraifft gyda Defra, Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yn yr Alban (SEPA), Natural England, FCGB a'r Sefydliad Rheoli Morol (MNO). Byddem yn disgwyl i'r corff newydd gymryd rhan yn y grwpiau hyn ac, er enghraifft, gymryd lle Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar y Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur (CGN). Yn yr un modd, byddai rhai gweithgareddau – megis ymchwil gyffredin – yn debygol o fod yn weithgareddau i'r DU gyfan o hyd.

Mae nifer o feysydd lle y byddai angen gwaith trawsffiniol. Er enghraifft, mae dau o'r tri Chynllun Rheoli Basn Afon sy'n cwmpasu Cymru yn rhai trawsffiniol ac mae cymhlethdodau eraill yn gysylltiedig â'r setliad datganoli y byddai angen eu cynnwys

yn nhrefniant gwaith y corff newydd. Er mwyn sicrhau trefniadau rheoli lleol effeithiol ar faterion trawsffiniol, byddai angen i'r corff newydd sefydlu trefniadau ffurfiol ag Asiantaeth yr Amgylchedd, y Comisiwn Coedwigaeth yn Lloegr a Natural England.

Mae amrywiaeth o opsiynau ar gyfer y trefniadau hyn, gan gynnwys elfennau statudol ac anstatudol. Byddai angen i'r trefniadau hyn barchu pwerau Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae trafodaethau ag Asiantaeth yr Amgylchedd, y Comisiwn Coedwigaeth ac Adrannau Llywodraeth y DU yn parhau i ganfod yr atebion gorau i broblemau penodol.

## 6.4 Atebolrwydd i Lywodraeth Cymru

Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, byddai'r corff newydd yn atebol i Lywodraeth Cymru drwy'r Gweinidog Noddi (Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar hyn o bryd), a byddai Pwyllgorau perthnasol y Cynulliad yn craffu arno.

O ganlyniad i argymhelliad Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru, bydd pob Corff newydd a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn cael cyfnod prawf dwy flynedd lle y bydd yn wynebu craffu mwy trylwyr na'r arfer ac yn cael mwy o gefnogaeth gan ei adran noddi yn Llywodraeth Cymru. Ar ddiwedd y cyfnod prawf, cynhelir asesiad allanol annibynnol o ansawdd ac effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol y corff.

Mewn ymgynghoriad â'i adran noddi, caiff Dogfen Fframwaith a Datganiad Rheoli (neu gynllun dirprwyo) newydd eu llunio cyn breinio'r corff a sicrheir cytundeb yn eu cylch. Byddai'n nodi'r fframwaith cyffredinol y byddai'r corff yn gweithio ynddo a byddai'n nodi'r telerau ac amodau ar gyfer cael cymorth grant gan Weinidogion Cymru. Byddai Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (mewn ymgynghoriad ag unrhyw Weinidog cyfrifol arall yng Nghymru) yn cyhoeddi llythyr cylch gwaith blynyddol, gan nodi cyfraniad y corff newydd at agenda gyffredinol Llywodraeth Cymru, a byddai'n parhau i fod yn gyfrifol am gymeradwyo'r cynlluniau strategol a chorfforaethol hirdymor.

Cynigir y byddai modd egluro a datblygu agweddau ar yr agenda hon drwy ganllawiau a/neu gyfarwyddiadau gan Weinidogion[8]. Mae'r dull gweithredu hwn yn sicrhau hyblygrwydd i ddiwallu anghenion sy'n newid heb orfod cyflwyno newidiadau deddfwriaethol cymhleth ond yn rhoi rhywfaint o rym statudol.

Fel rhan o hyn, rydym yn bwriadu blaenoriaethu'r gwaith ac yna monitro a gwerthuso perfformiad y corff drwy'r fframwaith cyflawni tymor hwy a ddisgrifiwn yn adran 4.5 ac Atodiad 5.

**Cwestiwn 9: A ydych yn cytuno â'r cynigion ynghylch statws, trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd y corff newydd? A allem wella'r trefniadau arfaethedig mewn unrhyw ffordd?**

[8] Mae'r dull gweithredu hwn yn adlewyrchu, er enghraifft, bwerau presennol Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo Asiantaeth yr Amgylchedd yn unol ag adrannau 4, 40 a 122 Deddf yr Amgylchedd 1995.

## 6.5 Cynigion i ymgysylltu â rhanddeiliaid

Byddai angen i'r corff newydd ymgysylltu'n effeithiol ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys busnesau, llywodraeth, y trydydd sector, sefydliadau anllywodraethol eraill, amaethyddiaeth a thirfeddianwyr, cymunedau a'r cyhoedd (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt). Mae hyn yn hanfodol er mwyn i'r corff newydd gyflawni ei gylch gwaith eang o sicrhau'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol a gwaith rheoli ecosystemau. Ar hyn o bryd, mae gan y tri phrif gorff presennol amrywiaeth o bwyllgorau a phaneli rhanddeiliaid statudol ac anstatudol.

Caiff coedwigaeth yng Nghymru ei llywio gan Bwyllgor Cenedlaethol Cymru. Mae hwn yn bwyllgor statudol a sefydlwyd o dan adran 2(3) o Ddeddf Coedwigaeth 1967, sef un o'r tri Phwyllgor Cenedlaethol a sefydlwyd gan y Comisiynwyr Coedwigaeth yng Nghymru, yr Alban a Lloegr ar ôl i goedwigaeth gael ei datganoli. Byddai bwrdd y corff newydd arfaethedig yn cyflawni rôl y Pwyllgor yn ei le. Er mwyn datblygu polisi coedwigaeth yng Nghymru ar ran y llywodraeth, mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi cynnull Panel Cynghori â llawer o randdeiliaid sydd wedi rhoi cyngor ar ddatblygu a gweithredu strategaeth Coetiroedd i Gymru yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf. Er mai Panel anstatudol ydyw, caiff pwyllgorau statudol eu cynnull ar sail 'gorchwyl a gorffen' o aelodaeth berthnasol o'r panel hwn, i roi cyngor i'r Comisiynwyr Coedwigaeth a Gweinidogion ar achosion y ceir anghydfod yn eu cylch o dan adrannau perthnasol Deddf Coedwigaeth.

Ar hyn o bryd, mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd ddau bwyllgor cynghori statudol (Pwyllgor Ymgynghorol Pysgodfeydd Rhanbarthol a Lleol (neu PYPEH) a Phwyllgor Ymgynghorol Gwarchod yr Amgylchedd (PYGA)), ynghyd â Phwyllgorau Cynghori Pysgodfeydd Lleol (PCPLlau) a Grwpiau Amgylcheddol Ardal (GAAau) anstatudol, mewn rhai achosion. Mae Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru (RhPLlC) ganddi hefyd, sef pwyllgor cynghori gan fwyaf, ond mae hefyd yn cadw rôl weithredol mewn perthynas â chodi ardollau am waith amddiffyn rhag llifogydd ar awdurdodau lleol.

Yn Lloegr, mae Defra wedi cyhoeddi ymgynghoriad[9] sy'n cynnig defnyddio'r pwerau yn y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus i ddiddymu PYGA, PYPEH a PCPLlau a chyflwyno trefniadau anstatudol mwy hyblyg yn eu lle. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys cynigion gan Asiantaeth yr Amgylchedd o ran sut y gallai'r trefniadau anffurfiol hyn weithio yn y dyfodol.

Dim ond diddymu pwyllgorau yn Lloegr a gaiff ei drafod yn ymgynghoriad Defra. Fodd bynnag, yn ein barn ni, byddai gwaith y bwrdd newydd arfaethedig yn gorgyffwrdd yn sylweddol â gwaith yr holl bwyllgorau hyn yng Nghymru ac, fel y'i disgrifiwyd o'r blaen, byddai'n cymryd lle cyngor Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Yn ogystal, o ran PYGA a PYPEH, mae'r un dadleuon yn gymwys yng Nghymru ag yn Lloegr, sef:

- mae natur fanwl yr adrannau deddfwriaethol perthnasol yn Neddf yr Amgylchedd 1995 wedi rhwystro'r pwyllgorau rhag esblygu'n hawdd i ymdrin â dulliau gweithredu a heriau amgylcheddol modern megis y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr mewn ffordd gyfannol;

[9] http://www.defra.gov.uk/consult/2011/11/01/consultation-epacs-rlfacs/.

- awydd i alluogi cymunedau lleol a chymdeithas sifil i ddangos mwy o ddiddordeb yn eu hamgylchedd, gan annog partneriaethau lleol neu gamau gweithredu a arweinir gan y gymuned neu gymdeithas sifil ar faterion amgylcheddol lleol ac adeiladu ar arfer da presennol megis cyfranogiad Ymddiriedolaethau Natur i ddylanwadu ar ganlyniadau amgylcheddol lleol a'u cyflawni;
- diwygio cyrff hyd braich a sicrhau y caiff adnoddau eu defnyddio yn y ffordd orau i ymgysylltu â'r rheng flaen a chyflawni ym maes yr amgylchedd.

Felly, nid ydym yn gweld achos dros barhau â'r trefniadau presennol heb eu diwygio, yn enwedig oherwydd byddai angen eu newid yn sylweddol er mwyn osgoi dyblygu â gwaith bwrdd newydd.

Serch hynny, byddai'n hanfodol ymgysylltu â rhanddeiliaid yn effeithiol er mwyn i waith y corff newydd lwyddo. Credwn ei bod yn bwysig bod bwrdd y corff a'i staff yn teimlo perchenogaeth dros y trefniadau hyn ac yn helpu i'w llywio. Fel yn Lloegr, rydym yn cynnig, felly, y dylid diddymu PYGA a PYPEH yng Nghymru, gan gyflwyno trefniadau anstatudol mwy hyblyg yn eu lle.

Fodd bynnag, mae Pwyllgorau Rhanbarthol Llifogydd ac Arfordir Asiantaeth yr Amgylchedd, Rheoli Perygl Llifogydd Cymru, yn cyflawni swyddogaeth graffu werthfawr mewn perthynas â rhaglen gyfalaf Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, ac rydym yn cydnabod gwerth cadw mewnbwn gweithredol wedi'i ethol yn ddemocrataidd i'r broses o bennu ardollau. Felly, nid ydym yn bwriadu diddymu'r Pwyllgor yn y cynigion hyn, er y bydd angen diwygio strwythur y Pwyllgor o bosibl yng ngoleuni cylch gwaith ehangach y corff newydd.

Rydym hefyd yn bwriadu parhau â'r ddarpariaeth i fwrdd y corff gynnal pwyllgorau lleol fel y gwêl yn dda, a byddem yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff gyflwyno cynigion i sicrhau prosesau effeithiol i ymgysylltu â rhanddeiliaid, ymgynghori arnynt a'u gweithredu. Gallai hyn gynnwys amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys is-grwpiau'r bwrdd ag aelodau cyfetholedig i ddarparu arbenigedd ar bynciau penodol; cysylltiadau mwy ffurfiol â grwpiau lleol presennol; a defnyddio technoleg newydd a modern nad oedd yn bodoli pan sefydlwyd y pwyllgorau statudol presennol.

Mae nifer o fanteision yn gysylltiedig â gweithredu yn y ffordd hon:

- Mae'n sicrhau hyblygrwydd ac yn sicrhau bod trefniadau yn addas ar gyfer y dyfodol, gan wneud yn siŵr y gallant eu diweddaru a'u gwella'n hawdd.
- Byddai'r corff newydd yn datblygu'r cynigion newydd ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn berchen arnynt ac yn gwneud iddynt weithio'n effeithiol.
- Mae'n rhoi amser i gael mewnbwn eang gan y rhanddeiliaid eu hunain i ddulliau ymgysylltu.

Mae hefyd yn rhoi hyblygrwydd i gyflwyno dulliau ymgysylltu mwy radical, gan gynnwys opsiynau cyflawni'r trydydd sector, wrth i waith cynllunio sefydliadol manwl gael ei wneud.

**Cwestiwn 10: A oes gennych unrhyw farn ar y dull gweithredu yr ydym yn ei gynnig ar gyfer y corff newydd mewn perthynas â'i drefniadau i randdeiliaid? Sut y gallem wella'r dull gweithredu?**

## 6.6 Trefniadau rheoleiddio

### 6.6.1 Hunandrwyddedu

Mae nifer o swyddogaethau y mae'r tri chorff yn eu cyflawni eisoes lle maent yn rhoi eu cydsyniad eu hunain. Er enghraifft, gall Asiantaeth yr Amgylchedd roi trwyddedau iddi'i hun i stocio pysgod, trwyddedau ar gyfer tynnu a chroni dŵr a thrwyddedau amgylcheddol penodol. Mae'n bosibl hefyd y gall Cyngor Cefn Gwlad Cymru roi trwyddedau penodol iddo'i hun mewn perthynas â symud rhywogaethau a chaniatadau SoDdGA. Yn gyffredinol, mae trefniadau ar waith yn y cyrff presennol i wahanu'r timau gweithredol oddi wrth y rhai sy'n eu rheoleiddio i ryw raddau. Yn achos Asiantaeth yr Amgylchedd, caiff ei cheisiadau am ganiatadau penodol, megis trwyddedau tynnu dŵr, eu copïo i Lywodraeth Cymru, a gallant gael eu galw i mewn i Weinidogion Cymru benderfynu arnynt.

Mae'r prif feysydd lle y byddai'r newid yn cynyddu hunandrwyddedu o bosibl yn ymwneud â chydsyniadau/caniatadau y mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn eu rhoi i'r cyrff eraill ar hyn o bryd. Yn ymarferol, byddai hyn yn cynnwys y gwaith gweithredol a wneir ar hyn o bryd gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ar yr ystad coedwigoedd, a gwaith i reoli'r perygl o lifogydd a wneir gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Ar hyn o bryd, pan wneir y gwaith hwn ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig dynodedig, mae'n rhaid hysbysu Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac mae angen caniatâd, neu ei gydsyniad i'r gwaith, yn unol â Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae 33 o gydsyniadau/caniatadau wedi'u rhoi i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru a 206 i Asiantaeth yr Amgylchedd, sef cyfartaledd o 11 ac ychydig o dan 70 ohonynt bob blwyddyn yn y drefn honno. O'r 239 o gydsyniadau y gwnaed cais amdanynt, dim ond dau sydd wedi'u gwrthod yn y cyfnod hwn: ill dau i Asiantaeth yr Amgylchedd.

Er y gall rhoi caniatâd i chi eich hun fod yn annymunol, yn ymarferol prin yw'r problemau a geir gyda'r caniatadau hyn.

Felly, nid ydym yn cynnig newidiadau mawr yn y meysydd hyn fel rhan o'r broses o drosglwyddo swyddogaethau i'r corff newydd. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i'r corff newydd barhau i wneud darpariaeth i wahanu penderfyniadau trwyddedu oddi wrth weithgarwch gweithredol.

### 6.6.2 Y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol (AAS) a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd

Mae Erthygl 6(3) o'r Gyfarwyddeb AAS[10] yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau ddynodi cyrff i ymgynghori â hwy pan gynhelir ASS lle y bo'n ofynnol o dan y Gyfarwyddeb honno. Y cyrff dynodedig yw'r rhai y mae effeithiau amgylcheddol strategol tebygol cynllun neu raglen yn debygol o beri pryder iddynt, oherwydd eu cyfrifoldebau amgylcheddol penodol.

Ar hyn o bryd, mae ymgyngoreion dynodedig yn cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Rydym yn cynnig y byddai'r corff newydd yn ymgynghorai statudol ("corff ymgynghori") at y diben hwn.

Yn y rôl hon, mae'n debygol, pe bai'r sefydliad ei hun yn hyrwyddo cynllun neu raglen y mae'r Gyfarwyddeb AAS yn berthnasol iddo, byddai'r corff newydd ei hun yn ymgynghorai statudol, yn ogystal â chyrff eraill a ddynodir at y diben hwn.

Mae arfer da a chyfraith achosion ar gyfer AAS yn ei gwneud yn ofynnol, pan fo corff yn gyfrifol am lunio cynllun neu raglen ac ef yw'r ymgynghorai dynodedig hefyd, fod yn rhaid creu hunanymreolaeth wirioneddol yn y corff a fyddai'n cynnal yr ymgynghoriad sy'n ofynnol o dan y Gyfarwyddeb AAS. Yn unol â hynny, gwneid darpariaeth i wahanu'n swyddogaethol ac yn briodol y broses o lunio'r cynllun neu'r rhaglen oddi wrth y rôl ymgynghori sy'n ofynnol o dan y Gyfarwyddeb AAS.

Cynigir hefyd, lle y byddai'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd[11] yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff newydd gynnal asesiad priodol o effeithiau cynllun neu brosiect y mae'n bwriadu ei gyflawni, y caiff y tîm sy'n datblygu'r prosiect ei wahanu'n swyddogaethol ac yn briodol oddi wrth y tîm sy'n cynnal yr asesiad. Lle y byddai'r corff newydd yn gyfrifol am drwyddedu Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop, byddai trefniadau priodol yn cael eu gwneud i wahanu'r tîm trwyddedu oddi wrth y rhai sy'n datblygu'r prosiect (gweler adran 5.3.3).

### 6.6.3 Cyngor cadwraeth pan fo'r corff yn rheoleiddio eraill

Yr ail faes lle y mae pryderon wedi'u codi yw achosion pan fyddai'r corff newydd yn rheoleiddio partïon eraill (e.e. caniatadau gollwng neu drwyddedau tynnu dŵr) a lle mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn rhoi cyngor cadwraeth ar hyn o bryd drwy'r broses ymgynghori.

Yn gyntaf, mae'n bwysig cydnabod nad yw'r mwyafrif helaeth o ganiatadau yn rhai dadleuol. Mewn perthynas â'r rhain, mae proses effeithlon lle y mae arbenigwyr cadwraeth a thimau trwyddedu yn cydweithio'n agos i ddiogelu'r amgylchedd a darparu'r gwasanaeth mwyaf effeithlon i'r ymgeisydd o fudd i'r amgylchedd a'r cyhoedd. Byddai timau ar y cyd yn lleihau ffurfioldeb, biwrocratiaeth ac amser a chostau diangen.

[10] Cyfarwyddeb y Cyngor 2001/42/EC a wnaed ar 27 Mehefin 2001 ar y gwaith o asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd, OJ 2001 L 197, t.30.
[11] Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EC a wnaed ar 21 Mai 1992 ar gadw cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt, OJ L 206, 22.7.1992, t. 7.

Byddai gan y corff newydd gylch gwaith clir i ddiogelu'r amgylchedd a byddai ei benderfyniadau rheoleiddio yn annibynnol ar y llywodraeth. Byddai tryloywder yn cael ei sicrhau drwy ei gwneud yn ofynnol i'r corff newydd gyhoeddi dogfen penderfyniad, gan ymdrin â’r materion cadwraeth a nodwyd, a sut yr ymdriniwyd â hwy. Ar gyfer safleoedd y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, gwneid hyn drwy Asesiad Priodol, wedi'i baratoi â chyfranogiad llawn y timau cadwraeth perthnasol.

Yn ein barn ni, y prif faterion yw y dylai penderfyniadau rheoleiddio effeithiol fod yn annibynnol ar y prosesau gwleidyddol a bod gan benderfyniadau resymeg gyfreithlon a thryloyw sy'n cydbwyso'r holl fuddiannau perthnasol ac, wrth wneud hynny, yn diogelu'r amgylchedd.

Yn gyffredinol, credwn mai gweithwyr proffesiynol wedi'u cyd-leoli, â nod cyffredin, yn canolbwyntio ar ddiogelu'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy fyddai'r ffordd orau o wneud hyn. Mae hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd o gyfleoedd cynnar i ymgysylltu, nodi problemau, a chynnal trafodaethau synhwyrol â'r ymgeisydd i ddatrys problemau cyn iddynt ddod yn broblemau mawr.

**Cwestiwn 11: Beth yw eich barn ar yr agweddau hyn ar y trefniadau rheoleiddio?**

# Adran 7: Rheoli'r Newid

## 7.1 Corff Cysgodol

Ceir methodoleg brofedig ar gyfer datblygu sefydliadau newydd, a hynny'n rhai cyhoeddus a phreifat, sef sefydlu 'corff cysgodol' i arwain a chyflawni'r gwaith paratoi at y diwrnod trosglwyddo, er mai'r sefydliadau etifeddol sy'n parhau i fod â chyfrifoldeb gweithredol tan y dyddiad hwnnw. Y camau cyntaf yn y broses o roi'r sefydliad cysgodol ar waith fyddai penodi Cadeirydd ac wedyn bwrdd cysgodol. Byddai Llywodraeth Cymru yn noddi'r corff cysgodol a byddai'n atebol i Weinidogion Cymru a'r adran noddi.

Tra bo'r corff cysgodol yn cael ei sefydlu, mae gwaith paratoi yn mynd rhagddo drwy gyfres o ffrydiau gwaith a arweinir gan Lywodraeth Cymru, gyda staff wedi'u secondio o'r cyrff presennol. Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar y cynllun pontio a nodir yn yr achos busnes.

Ar ôl penodi'r Cadeirydd a sefydlu'r corff cysgodol, byddai'r cyfrifoldeb am gyflawni'r prosiectau gweithredu sy'n weddill yn trosglwyddo i'r corff cysgodol. Yr eithriad fyddai'r prosiectau hynny sy’n ymwneud â'r polisi, y nawdd a'r ddeddfwriaeth a fyddai'n ofynnol i sefydlu'r corff newydd, a fyddai'n parhau i gael eu cyflawni gan Lywodraeth Cymru.

## 7.2 Rheoli'r Etifeddiaeth

Yn ystod y broses hon, mae'n hanfodol bod y cyrff presennol yn parhau i reoli eu cyfrifoldebau cyflawni parhaus yn broffesiynol tan y diwrnod y caiff y swyddogaethau eu trosglwyddo i'r corff newydd (diwrnod breinio). Byddai angen i Swyddogion Cyfrifyddu aros yn eu lle yn y cyrff etifeddol nes bod pob un o'r cyfrifoldebau y cytunwyd arnynt wedi'u cyflawni. Byddai'r trefniadau presennol mewn perthynas â'r dogfennau noddi allweddol megis y Memorandwm Ariannol, y Datganiadau Rheoli ac unrhyw ganllawiau perthnasol sydd wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn parhau i fod ar waith.

Byddai'n hollbwysig i bob un o'r tri chorff presennol gyflawni eu cynlluniau gweithredol yn llwyddiannus, ynghyd â swyddogaethau eraill i'w cynnwys, er mwyn rheoli'r risgiau o ran rhoi'r corff newydd ar waith yn llwyddiannus. Bydd yn hollbwysig sicrhau parhad busnes ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir, cyn i adnoddau a chyfrifoldebau gael eu trosglwyddo'n llawn i'r corff newydd ar ddiwrnod ei freinio.

Byddai angen i'r cyrff presennol sicrhau y ceir cyn lleied o effaith â phosibl ar gwsmeriaid a rhanddeiliaid wrth i'r sefydliad newydd gael ei sefydlu. Byddai'r prosesau monitro perfformiad sydd ar waith ar hyn o bryd yn cael eu cadw.

Yn ystod y cyfnod pontio, byddai pwyllgorau perthnasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dal i graffu ar y cyrff presennol.

## 7.3 Trefniadau Rheoli Trawsffiniol

Yn ogystal â'r angen am y trefniadau cydgysylltu a llywodraethu effeithiol a nodir yn adran 6.3, mae amrywiaeth o drefniadau rheoli trawsffiniol ymarferol y byddai angen cytuno arnynt yn ystod y cam gweithredu, megis mewn perthynas â rheoli Afon Dyfrdwy, Afon Gwy ac Afon Hafren. Mae'r mwyafrif o'r rhain yn ymwneud â swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd, megis rheoli afonydd trawsffiniol, trefniadau ar gyfer ymateb brys yn ystod llifogydd a pholisi codi tâl ar gyfer yr un corff.

At ddibenion ymarferol, mae llawer o'r gweithdrefnau a'r cytundebau hyn yn bodoli eisoes, am fod ffin weithredol fewnol Asiantaeth yr Amgylchedd yn dilyn y ffin wleidyddol, ac mae cytundebau 'rhyngranbarthol' ar waith eisoes. Byddai'r rhain yn cael eu hadolygu a'u ffurfioli lle y bo angen, er mwyn sicrhau atebolrwydd a threfniadau gwaith clir. Yn ogystal, byddai angen i ni sicrhau bod trefniadau ymarferol, megis gwarantau trawsffiniol i arolygwyr, ar waith i sicrhau ymateb effeithiol i faterion gorfodi trawsffiniol. Byddai angen sefydlu trefniadau â Natural England hefyd ar gyfer Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol trawsffiniol.

Mae nifer o faterion trwyddedu yn croesi ffiniau hefyd, megis trwyddedau offer symudol penodol o dan y gyfundrefn trwyddedu amgylcheddol a thrwyddedau pysgota â gwialen. Yn seiliedig ar drafodaethau cychwynnol ag Asiantaeth yr Amgylchedd, rydym yn disgwyl, i ddechrau o leiaf, y byddai'r rhain yn parhau i fod yn drwyddedau ar y cyd, â thaliadau cyffredin, a dilysrwydd ar y cyd. Pe bai newidiadau yn cael eu cynnig yn y dyfodol (neu ar ôl gwaith dadansoddi pellach yn ystod y cam gweithredu), cynhelid ymgynghoriad ar wahân arnynt.

## 7.4 Gwasanaethau i Gymru a ddarperir gan Asiantaeth yr Amgylchedd neu Gomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr

Rydym yn disgwyl y byddai'r mwyafrif o swyddogaethau y byddai'r corff newydd yn eu cyflawni yng Nghymru yn cael eu darparu o Gymru. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y byddai'n well i Asiantaeth yr Amgylchedd neu Gomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr gyflawni swyddogaethau penodol ar ran y corff, naill ai am resymau gweithredol neu oherwydd effeithlonrwydd. Mae adran 27 o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn hwyluso trefniadau o'r fath, yn amodol ar yr angen i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru a/neu'r Ysgrifennydd Gwladol.

Er enghraifft, rydym yn rhagweld trosglwyddo swyddogaethau yn ymwneud â rheoleiddio gwastraff ymbelydrol i'r corff newydd. Mae cronfa arbenigedd y DU mewn perthynas â'r maes hwnnw yn gymharol fach. Byddai adran 27 yn galluogi'r corff newydd i ymrwymo i drefniadau i'w swyddogaethau yn hynny o beth gael eu cyflawni gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Byddai angen cydsyniad Gweinidogion Cymru i drefniant o'r fath, ynghyd â chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, oherwydd byddai'n cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd.

Byddai hefyd yn ddoeth, er mwyn osgoi dyblygu neu am resymau effeithlonrwydd, i'r corff newydd wneud trefniadau ar gyfer darparu rhai gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol i'w gefnogi. Mae adran 28 o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn darparu y gall nifer o gyrff, gan gynnwys Asiantaeth yr

Amgylchedd, ymrwymo i drefniadau o'r fath â'r corff newydd. Mae adran 29 yn galluogi'r Comisiynwyr Coedwigaeth i wneud yr un peth. Rydym yn rhagweld y byddai trefniadau o'r fath yn synhwyrol mewn perthynas â meddalwedd arbenigol a gwasanaethau TG. Byddai'r trefniadau hyn yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer breinio fel rhan o'r gwaith pontio a gyflawnid gan y corff cysgodol.

## 7.5 Trefniadau ariannu

Mae'n amlwg ei bod yn bwysig bod ein corff newydd arfaethedig yn cael ei ariannu'n briodol, yn ystod y cyfnod pontio a thu hwnt. Bwriedir ar hyn o bryd mai cyfanswm yr arian ar gyfer y tri chorff gyda'i gilydd fydd rhyw £166m yn 2013. Disgwylir mai'r prif ffynonellau arian fydd cymorth grant gan Weinidogion Cymru (£104m), taliadau rheoleiddio ac ardollau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, incwm masnachol megis gwerthu pren ac arian o ffynonellau eraill megis Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Atodir rhestr enghreifftiol o'r cynlluniau codi tâl rheoleiddio yn Atodiad 6.

Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd bwerau benthyca hefyd a all gael eu defnyddio o dan amgylchiadau eithriadol, yn amodol ar gymeradwyaeth y llywodraeth. Bwriadwn y byddai'r corff arfaethedig yn cael ei ariannu mewn ffordd debyg i'r tri chorff ar hyn o bryd.

Er mwyn cyflawni hyn, ein bwriad deddfwriaethol fyddai i'r corff newydd allu codi ei gynlluniau codi tâl ei hun i Gymru, wedi'u cymeradwyo gan Weinidogion Cymru, lle gwelir mai hon oedd y ffordd fwyaf priodol ymlaen. Byddem yn ceisio sicrhau bod gan y corff ac Asiantaeth yr Amgylchedd bwerau i sefydlu cynlluniau codi tâl ar y cyd (neu ddrych-gynlluniau) pan fo hyn er budd cwsmeriaid neu effeithlonrwydd, neu pan ragwelwn y bydd y swyddogaeth yn parhau i gael ei chyflawni ar lefel y DU, megis o ran cynlluniau masnachu allyriadau.

Mae ein hachos busnes yn rhoi rhagor o fanylion am sut rydym yn cynnig ariannu'r broses bontio a chost y newid.

## 7.6 Staff a throsglwyddo asedau

Mae Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn ei gwneud yn ofynnol, fel y'i nodir yn Natganiad Arfer Swyddfa'r Cabinet ar Drosglwyddo Staff yn y Sector Cyhoeddus, i'r egwyddorion a nodir yn y Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) gael eu cymhwyso i unrhyw broses drosglwyddo. Felly, byddai staff yn cael eu trosglwyddo i'r corff newydd yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y rheoliadau hynny, ar eu telerau ac amodau presennol. Wedyn, cyfrifoldeb y corff newydd fyddai negodi â'r Undebau Llafur unrhyw newidiadau yn y dyfodol a fyddai'n helpu i gysoni telerau, amodau a chyflog a graddau fel rhan o'r broses o sefydlu'r corff.

Cytunid ar y ffordd o rannu asedau (gan gynnwys offer cyfalaf, cyfleusterau labordy, adeiladau a hawliau eiddo deallusol) â'r rhiant-gyrff a Defra. Byddai hyn yn dod i rym drwy orchymyn trosglwyddo asedau, gan drosglwyddo asedau y cytunid arnynt i'r corff newydd wrth iddo gael ei freinio. Yn yr un modd, byddai rhwymedigaethau sy'n bodoli ar yr adeg freinio yn cael eu trosglwyddo'n ffurfiol.

# Tablau

**Tabl 1: Y prif feysydd gwaith**

| **Swyddogaeth (maes gwaith)** | **Enghreifftiau** |
|---|---|
| Rheoleiddio diwydiannau sy'n effeithio ar amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru, neu sy'n eu defnyddio, mewn ffordd integredig. | • Trwyddedau am allyriadau diwydiannol.<br>• Caniatadau gollwng.<br>• Arolygiadau rheoleiddio.<br>• Asesu cydymffurfiaeth.<br>• Trwyddedau tynnu dŵr.<br>• Erlyniadau.<br>• Rheoli sylweddau a deunyddiau ymbelydrol anniwclear.<br>• Gwaredu gwastraff ymbelydrol.<br>• Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.<br>• Sŵn (o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol). |
| Lleihau effeithiau llygredd ar yr amgylchedd yng Nghymru (drwy atal, lleihau, lliniaru ac unioni). | • Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo arfer da.<br>• Archwiliadau.<br>• Ymweliadau â safleoedd.<br>• Nodi, dynodi ac adfer tir halogedig (safleoedd arbennig).<br>• Cynllunio rheolaethau datblygu.<br>• Cynlluniau strategol ar gyfer sectorau.<br>• Cyngor a chanllawiau i reolwyr tir i leihau'r perygl o lygredd gwasgaredig.<br>• Llywio'r broses o ddatblygu rhaglenni buddsoddi cwmnïau dŵr.<br>• Ymateb i ddigwyddiadau. |
| Defnyddio a rheoli coedwigoedd mewn ffordd gynaliadwy, gan gynyddu’r arwynebedd dan goetir cynaliadwy a chynhyrchu a chyflenwi pren a chynhyrchion coedwigoedd mewn ffordd gynaliadwy. | • Mynediad at goetiroedd a chyfleoedd hamdden.<br>• Defnydd a rheoli gan gymunedau.<br>• Cynaeafu pren yn seiliedig ar gynnyrch cynaliadwy.<br>• Marchnata pren. |

| Swyddogaeth (maes gwaith) | Enghreifftiau |
|---|---|
| | • Cymhellion a rhaglenni i gynyddu'r arwynebedd dan goetir.<br>• Rheoliadau i drwyddedu cwympo coed a sicrhau bod coed newydd yn cael eu plannu. |
| Cynnal a chadw a rheoli Ystad Coetir Llywodraeth Cymru i wella ei gyfraniad at ddatblygu cynaliadwy. | • Y llywodraeth i barhau i fod yn berchen ar yr ystad goed gyhoeddus gan sicrhau buddiannau tebyg i'r cyhoedd.<br>• Gwella a chydbwyso'r buddiannau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd wrth reoli'r ystad.<br>• Rheoli gan drydydd partïon fel ffordd o gyflawni amcanion. |
| Mesurau lliniaru newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo. | • Awdurdod cymwys ar gyfer System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd ac Ymrwymiad Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon.<br>• Rheoli perygl llifogydd ac erydu.<br>• Rheoli adnoddau dŵr.<br>• Rhaglenni ynni adnewyddadwy.<br>• Rhaglenni creu coetir.<br>• Rhaglenni amrywiaeth mewn coetir i'w cryfhau.<br>• Cynnwys asesiad o newid yn yr hinsawdd wrth ddatblygu cynlluniau hirdymor ar gyfer rheoli'r perygl o lifogydd ac adnoddau dŵr.<br>• Cynnwys asesiad o newid yn yr hinsawdd mewn cyngor i awdurdodau cynllunio lleol.<br>• Prosiect Datblygu Gwledig Integredig Mynyddoedd Cambria. |

| **Swyddogaeth (maes gwaith)** | **Enghreifftiau** |
|---|---|
| Gwarchod, adfer a gwella strwythur a swyddogaethau ecosystemau yng Nghymru, neu sy'n rhannol yng Nghymru, gan gynnwys fflora, ffawna, nodweddion daearegol a ffisiograffigol a phrosesau ecosystemau. | • Dynodi a rheoli Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a SoDdGA.<br>• Rheoli cytundebau â thirfeddianwyr a deiliaid.<br>• Cynghori a chefnogi'r broses o ddynodi Gwarchodfeydd Natur Lleol.<br>• Cyngor i Lywodraeth Cymru ar ddynodi a rheoli safleoedd N2k.<br>• Cyngor ar gynigion datblygu a chaniatadau rheoleiddio.<br>• Gwaith i'w cynnal drwy gydymffurfiaeth, er enghraifft â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi, y Gyfarwyddeb Dŵr Gwastraff Trefol, y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, y Gyfarwyddeb Adar. |
| Gwarchod, adfer a gwella tirweddau a morweddau Cymru. | • Dynodi Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.<br>• Adnoddau Asesu Tirweddau – Landmap; Asesu Nodweddion Tirweddau ac Asesu Morweddau.<br>• Cyngor ar gynigion datblygu, Cynlluniau Datblygu Lleol a Chynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol ac AHNE. |
| Gwella a chynyddu mynediad i'r amgylchedd, a'r defnydd ohono, at ddibenion hamdden awyr agored. | • Llwybrau cenedlaethol – cynghori a chynnig.<br>• Rhoi cyngor i awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd ar fynediad a hamdden.<br>• Nodi mynediad at gefn gwlad agored.<br>• Cymorth grant i awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol i wella ac ehangu cyfleoedd mynediad.<br>• Rheoli tir er budd y cyhoedd.<br>• Darparu cyfleusterau hamdden gan gynnwys canolfannau i ymwelwyr drwy fasnachfraint. |

| **Swyddogaeth (maes gwaith)** | **Enghreifftiau** |
|---|---|
| Cynllunio a rheoli adnoddau dŵr yng Nghymru, gan gynnwys annog y broses o arbed ac ailddosbarthu dŵr, cynyddu faint sydd ar gael a'i ddefnyddio'n briodol. | • Cynllunio adnoddau dŵr mewn modd strategol.<br>• Rheoli dŵr drwy gynllun trwyddedau tynnu dŵr.<br>• Asesu'r dŵr sydd ar gael.<br>• Asesu cynlluniau adnoddau dŵr a sychder cwmnïau dŵr i roi sicrwydd cyflenwad i gwsmeriaid. |
| Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. | • Codi ymwybyddiaeth.<br>• Rhybuddion llifogydd.<br>• Adeiladu amddiffynfeydd a chynlluniau rheoli risg eraill.<br>• Cynnal a chadw amddiffynfeydd.<br>• Symud rhwystrau.<br>• Cyngor ar Gynlluniau Rheoli Traethlinau. |
| Gweithio i atal neu unioni effeithiau digwyddiadau ac argyfyngau ar bobl. | • Rhybuddion llifogydd ac ymateb i lifogydd.<br>• Cefnogi gwasanaethau sy'n ymdrin â thanau mawr.<br>• Cefnogi mesurau rheoli clefydau (e.e. clwy'r traed a'r genau).<br>• Arwain neu gefnogi eraill i ymdrin ag achosion difrifol o lygredd (e.e. Sea Empress).<br>• Arwain y gwaith o reoli sychder.<br>• Cynlluniau Rheoli Argyfwng. |
| Annog y defnydd cynaliadwy o'r amgylchedd ac adnoddau naturiol drwy gefnogi mentrau newydd a'r rhai sy'n bodoli eisoes. | • Contractau cyflenwi pren hirdymor.<br>• Cefnogi cyfleusterau hamdden masnachol.<br>• Cymorth grant i Awdurdodau Lleol a grwpiau cymunedol lleol.<br>• Rheoli a darparu cronfeydd allanol ar gyfer cyrff eraill, e.e. Cymunedau a Natur, Llwybr Arfordir Cymru Gyfan, a Chronfa Cydymffurfio a Chryfder ac Amrywiaeth Ecosystemau. |

| **Swyddogaeth (maes gwaith)** | **Enghreifftiau** |
|---|---|
| Atal plâu a chlefydau sy'n effeithio ar bob coeden a phob math o gynnyrch pren rhag lledaenu a lleihau'r graddau y maent yn lledaenu. | • Rheoleiddio sy'n ei gwneud yn ofynnol i goed heintiedig neu goed sy'n agored i gael clefyd gael eu torri neu i bren wedi'i heintio gael ei ddinistrio.<br>• Arwain a chefnogi mesurau rheoli clefydau.<br>• Rheolaeth uniongyrchol dros rywogaethau goresgynnol, e.e. Didendum vexillum. |
| Cynnal a chadw, gwella a datblygu pysgodfeydd ar gyfer eogiaid, brithyll, llysywod, llysywod pendoll yr afon, brwyniaid a physgod dŵr croyw. | • Rheoleiddio'r defnydd o bysgodfeydd.<br>• Trwyddedu.<br>• Gwella cynefinoedd a mynediad.<br>• Hyrwyddo genweirio. |
| Gwella dealltwriaeth y cyhoedd o werth amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru a phwysigrwydd defnydd cynaliadwy. | • Cefnogi rhaglenni addysg amgylcheddol awyr agored.<br>• Rhaglen Dewch Allan.<br>• Darparu cyfleusterau a chyfleoedd i bawb ymweld â chefn gwlad.<br>• Cyngor i awdurdodau lleol ar ailgylchu.<br>• Taclo Tipio Cymru.<br>• Parc Rhanbarthol y Cymoedd. |
| Cynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn penderfyniadau am ddefnyddio a rheoli amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru. | • Defnydd cymunedau o asedau gan gynnwys prydlesu a phrosesau rheoli uniongyrchol.<br>• Defnyddio'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.<br>• Gwirfoddoli ar Warchodfeydd Natur Cenedlaethol.<br>• Cyfarfodydd Cyngor agored.<br>• Ymgynghori ar ehangu AHNE Bryniau Clwyd. |

| Swyddogaeth (maes gwaith) | Enghreifftiau |
|---|---|
| Diogelu iechyd a lles y cyhoedd drwy'r penderfyniadau rheoli a wna. | • Rheoleiddio prosesau diwydiannol mawr a chymhleth i leihau'r effaith ar ansawdd yr aer, sŵn ac iechyd pobl.<br>• Hyrwyddo'r defnydd o gefn gwlad gan bawb a'r buddiannau iechyd a ddaw yn ei sgil.<br>• Rheoli'r perygl o lifogydd. |
| Rhoi cyngor i Weinidogion ac unrhyw gorff cyhoeddus arall (gan gynnwys y rhai y tu allan i Gymru) ar swyddogaethau perthnasol y corff, gan gynnwys y rhai sy'n berthnasol i'r DU ac yn rhyngwladol. | • Y Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur.<br>• Y Comisiwn Cynllunio Seilwaith. |

**Tabl 2: Pwerau cyffredinol i'w harfer yn eang yn yr holl swyddogaethau**

| **Swyddogaeth** |
|---|
| Caffael, perchenogi, rheoli, defnyddio a gwaredu tir ac eiddo arall. |
| Cynnal gweithrediadau peirianneg ac adeiladu. |
| Caffael a gwerthu pren sy'n sefyll a chynhyrchion coedwigoedd a hyrwyddo'r gwaith o gyflenwi, gwerthu, defnyddio ac addasu pren a chynhyrchion coedwigoedd. |
| Sefydlu a rhedeg, neu helpu i sefydlu a rhedeg, mentrau i ddefnyddio'r amgylchedd ac adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy. |
| Cynnal a chomisiynu ymchwil. |
| Rhoi cyngor arbenigol a thechnegol. |
| Cyflawni neu hyrwyddo prosiectau neu gynlluniau arbrofol. |
| Dwyn achosion cyfreithiol. |
| Gwneud taliadau neu roi grantiau neu fenthyciadau. |
| Derbyn rhoddion (o fewn terfynau y cytunwyd arnynt ac o dan amgylchiadau priodol). |
| Codi tâl am ddarparu cynhyrchion a gwasanaethau. |
| Ffurfio cyrff corfforaethol neu elusennol neu gymryd rhan ynddynt, er mwyn defnyddio eiddo deallusol, dirprwyo pwerau i godi tâl a rhannu elw a chymryd rhan mewn mentrau ar y cyd. |

**Tabl 3: Y prif ffactorau y bydd yn rhaid i'r corff newydd arfaethedig eu hystyried wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau**

| **Swyddogaeth** |
|---|
| Y costau a'r buddiannau tebygol (mae hyn yn cynnwys costau i'r amgylchedd a chostau i bobl a sefydliadau). |
| Buddiannau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol pobl Cymru, gan gynnwys pa mor ddymunol ydyw i warchod adeiladau, safleoedd, tirweddau a gwrthrychau o ddiddordeb archaeolegol, pensaernïol, peirianegol neu hanesyddol. |
| Newidiadau ecolegol gwirioneddol a phosibl, gan gynnwys effeithiau newid yn yr hinsawdd. |
| Pa mor ddymunol ydyw i sicrhau cyfle cyfartal i bawb yng Nghymru weld buddiannau posibl yr amgylchedd ac adnoddau naturiol. |
| Effeithiau trawsffiniol posibl pob penderfyniad ynghylch rheoli adnoddau naturiol. |

# Atodiad 1: Anghenion Cyflawni Strategol

Byddem yn disgwyl i'r corff newydd ein helpu i gyflawni ein nodau fel llywodraeth a'n blaenoriaethau ar gyfer yr amgylchedd, cymunedau a busnesau yng Nghymru. Crynhoir y rhain isod i roi cyd-destun cyffredinol i'r diben, y nodau a'r amcanion a ddisgrifiwn ar gyfer y corff newydd.

## 1.1 Datblygu Cynaliadwy

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu datblygu cynaliadwy fel ei phrif egwyddor drefniadol. Mae Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ('Cymru'n Un; Cenedl Un Blaned') yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o Gymru gynaliadwy a'i dull o ymgorffori datblygu cynaliadwy ym mhob un o'i pholisïau a'i phenderfyniadau.

Yng Nghymru, ystyr datblygu cynaliadwy yw gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cymunedau, gan wella ansawdd bywyd i'n cenhedlaeth ni ac i genedlaethau'r dyfodol. Mae angen cyflawni hyn mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal ac sy'n gwella'r amgylchedd ac yn gweithio o fewn ei gapasiti – gan ddefnyddio ein cyfran deg o adnoddau'r Ddaear.

Mae amgylchedd iach yn un o'r agweddau allweddol ar ddatblygu cynaliadwy. Mae ein Hôl Troed Ecolegol (un o bum prif ddangosydd datblygu cynaliadwy) yn rhoi gwybod i ni faint rydym yn ei ddefnyddio mewn perthynas â'r adnoddau sydd ar gael yn fyd-eang.

Rydym yn cyflwyno cynigion ar gyfer Bil Datblygu Cynaliadwy yn ystod tymor cyfredol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Byddai un corff amgylcheddol newydd sy'n canolbwyntio'n glir ar ddatblygu cynaliadwy a chylch gwaith o weithio gyda Llywodraeth Cymru i helpu i gydgysylltu penderfyniadau amgylcheddol, yn ein helpu i ddatblygu ein heconomi mewn ffyrdd a fyddai'n ein galluogi i fyw o fewn terfynau amgylcheddol yn well ac yn helpu i wyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, y defnydd anghynaliadwy o adnoddau ac allyriadau nwyon tŷ gwydr cysylltiedig.

## 1.2 Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru

Mae'r Strategaeth Amgylcheddol yn rhoi fframwaith cyffredinol ar gyfer cynnwys llawer o strategaethau manylach eraill neu strategaethau ar gyfer sectorau penodol. Mae'n nodi 39 o ganlyniadau yr ydym am eu cyflawni ar gyfer yr Amgylchedd yng Nghymru yn ei gyfanrwydd erbyn 2026.

Mae polisïau manylach i gyflawni'r canlyniadau yn y Strategaeth Amgylcheddol wedi'u datblygu ers hynny, er enghraifft o ran newid yn yr hinsawdd, gwastraff a rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Fodd bynnag, mae'n nodi ein dyheadau ar rai materion nad ydynt wedi'u trafod ar wahân mewn dogfennau polisi eraill, er enghraifft mewn perthynas ag ymbelydredd a chemegion. Mae'r Strategaeth hefyd yn atgyfnerthu ein bwriad ehangach i sicrhau y diogelir iechyd a lles y cyhoedd ac y rhoddir blaenoriaeth i'r bobl sydd fwyaf agored i niwed a'r amgylcheddau gwaethaf eu cyflwr.

## 1.3 Cynnal Cymru Fyw

Ym mis Chwefror 2010, yng ngoleuni'r methiant i gyflawni cyfres o dargedau bioamrywiaeth, gwnaethom ddechrau'r broses o ddatblygu Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol "Cymru Fyw". Mae'r fframwaith hwn yn seiliedig ar ecosystemau – gan edrych ar yr amgylchedd yn ei gyfanrwydd a chan nodi ffordd lawer mwy integredig o reoli'r amgylchedd sy'n gwella iechyd yr ecosystem sylfaenol. Mae'r dull gweithredu wedi'i fabwysiadu yng Nghanllaw Effeithlonrwydd Ynni'r Undeb Ewropeaidd a Strategaeth Bioamrywiaeth yr EU, sy'n pwysleisio dull gweithredu seiliedig ar ecosystemau. Mae hefyd wedi'i gynnwys ym mhapur gwyn a chynllun busnes Llywodraeth y DU ar yr amgylchedd naturiol, sydd â'r nod o hyrwyddo dull gweithredu integredig, gan newid o golli bioamrywiaeth i enillion net, drwy greu rhwydwaith ecolegol cydlynol o safleoedd a ddiogelir a mesurau cefn gwlad ehangach a datblygu cydnerthedd drwy gefnogi ecosystemau iach sy'n gweithredu'n dda.

Byddwn yn ceisio gwella a symleiddio'r ddeddfwriaeth yn y maes hwn drwy Fil yr Amgylchedd yn 2013/14 a byddai'r corff newydd yn gam mawr ymlaen tuag at y ffordd integredig o weithio yr ydym yn anelu ati'n ehangach. Bydd yn hollbwysig i'n cynlluniau i roi dull gweithredu seiliedig ar ecosystemau ar waith drwy gadw a rheoli adnoddau naturiol.

## 1.4 Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd

Newid yn yr hinsawdd yw un o'r problemau mwyaf heriol sy'n ein hwynebu yn yr 21$^{ain}$ ganrif. Mae gan Lywodraeth Cymru ran glir i'w chwarae i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac mae wedi nodi ei dull gweithredu strategol yn Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2010. Mae ein Strategaeth yn cadarnhau ein huchelgais i fynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau newid yn yr hinsawdd ac yn nodi ein hymrwymiadau a'u dull gweithredu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a sicrhau bod Cymru wedi paratoi'n dda i reoli effeithiau hinsawdd sy'n newid. Gwnaethom ailddatgan yr ymrwymiadau hyn yn 2011 yn ein Rhaglen Lywodraethu yr ydym bellach yn ei gweithredu arni.

Byddai'r corff newydd yn chwarae rhan hollbwysig i'n helpu i gyflawni ein targedau ar gyfer rheoli tir, newid defnydd tir a choedwigaeth, yn ogystal â gweinyddu allyriadau o'r sectorau hynny a reoleiddir drwy ddeddfwriaeth ddomestig a deddfwriaeth yr UE. Byddai'r corff yn sbardun allweddol i helpu i gyflawni ein Fframwaith Ymaddasu.

## 1.5 Polisi Cynllunio Cymru

Mae Polisi Cynllunio Cymru a Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru yn nodi polisïau cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio a datblygu tir. Ar y cyd â'r Nodiadau Cyngor Technegol, maent yn darparu'r fframwaith polisi ar gyfer llunio cynlluniau datblygu awdurdodau lleol a'u penderfyniadau ar geisiadau cynllunio unigol.

Byddai'r corff newydd yn ffynhonnell bwysig o arbenigedd technegol i ategu'r gwaith o ddatblygu polisi cynllunio cenedlaethol ymhellach. Byddai'r corff newydd hefyd yn cadw nifer o rolau ymgynghorai statudol pwysig mewn perthynas â llunio cynlluniau

datblygu a phenderfyniadau ar geisiadau cynllunio a gorchmynion caniatâd datblygu. Byddai angen i'r corff newydd sicrhau ei fod yn cyflawni ei swyddogaethau cynllunio statudol mewn ffordd effeithlon ac amserol a'i fod yn chwarae rhan lawn yn y gwaith o wella'r gwasanaeth cynllunio a ddarperir.

## 1.6 Cynllun Datblygu Gwledig a Glastir

Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig a'n Cynllun Grant Amaeth-Amgylchedd newydd, Glastir, yn cael dylanwad pwysig ar ganlyniadau rheoli tir a chanlyniadau amgylcheddol ledled Cymru. Ar hyn o bryd, mae gan y tri chorff gwahanol rolau cynghori a gweithredu amrywiol yn y broses bolisi hon.

## 1.7 Strategaeth Coetir Cymru

Mae ein strategaeth ar gyfer coetiroedd yng Nghymru yn nodi gweledigaeth o ystad goetir fwy amrywiol, cynnydd sylweddol yn yr arwynebedd dan goed a defnydd ehangach o'r adnodd naturiol hwn, yn enwedig ein hystad goed gyhoeddus. Byddai'r corff newydd yn gyfrifol am wireddu'r uchelgeisiau hyn drwy ei waith rheoli uniongyrchol a thrwy ei rôl hyrwyddo a rheoleiddio.

## 1.8 Strategaeth Wastraff Cymru

Mae Strategaeth Wastraff Cymru, "Tuag at Ddyfodol Diwastraff", yn nodi, ar lefel uchel, sut y bydd Llywodraeth Cymru yn adeiladu ar y llwyddiannau a gyflawnwyd drwy Yn Gall gyda Gwastraff – Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru (2002). Mae'n disgrifio fframwaith hirdymor ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau a rheoli gwastraff rhwng nawr a 2050. Tuag at Ddyfodol Diwastraff yw ein strategaeth wastraff gyffredinol; nid yw'n gynllun gweithredu manwl. Caiff camau gweithredu eu datblygu mewn cynlluniau sector, megis cynllun y Sector Casglu, Seilwaith a Marchnadoedd ac eraill a fydd yn dilyn. Byddai'r corff newydd yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i lunio'r cynlluniau a'r broses o'u rhoi ar waith. Y corff newydd fyddai'r rheoleiddiwr arweiniol ar gyfer rheoli gwastraff. Byddai'n rheoleiddio gwaith gwaredu ac adfer gwastraff drwy drwyddedau amgylcheddol, monitro a gorfodi.

## 1.9 Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

Mae'r Strategaeth Genedlaethol statudol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn nodi polisïau ac amcanion strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Mae'n rhoi'r fframwaith a fyddai'n helpu cymunedau, y sector cyhoeddus a sefydliadau eraill i weithio gyda'i gilydd i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Mae'n ategu prosesau penderfynu ac ymgysylltu lleol ym maes rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, gan sicrhau y caiff risgiau eu rheoli mewn ffordd gydgysylltiedig ledled Cymru.

Byddai gan y corff newydd rôl allweddol i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, gan helpu i gydgysylltu gweithgareddau gweithredol ledled Cymru, arwain ym maes rhybuddion llifogydd a datblygu a chynnal a chadw amddiffynfeydd rhag llifogydd ac amddiffynfeydd arfordirol ochr yn ochr â mentrau rheoli risg eraill.

## 1.10 Datganiad Sefyllfa ar y Polisi Strategol ar Ddŵr a'r Strategaeth Ddŵr arfaethedig

Yn unol â'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu Strategaeth Ddŵr a fydd yn nodi cyfeiriad polisi dŵr a'r gwasanaethau dŵr a ddarperir yng Nghymru yn y dyfodol.

Bydd y Strategaeth yn sicrhau y caiff datblygu cynaliadwy ac egwyddorion Cynnal Cymru Fyw eu hymgorffori ym mhob agwedd ar y polisi dŵr a bydd yn adeiladu ar y cyfeiriad polisi a nodwyd yn Natganiadau Sefyllfa Llywodraeth Cymru ar y Polisi Strategol ar Ddŵr a gyhoeddwyd yn 2009 a 2011.

Y corff newydd fyddai'r rheoleiddiwr arweiniol ar gyfer ansawdd dŵr amgylcheddol ac adnoddau dŵr ac amrywiaeth o swyddogaethau cysylltiedig.

## 1.11 Strategaeth Ansawdd Aer

Byddai'r corff newydd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni Strategaeth Ansawdd Aer y DU yng Nghymru. Mae'r Strategaeth yn pennu safonau llygredd aer i ddiogelu iechyd pobl a'r amgylchedd. Byddai'r corff hefyd yn gweithio i gyflawni gwerthoedd targed a therfyn Ewropeaidd ac o ran achosion o drosglwyddo llygryddion ar draws ffiniau.

## 1.12 Trwyddedu amgylcheddol a rheoleiddio diwydiannol

Byddai'r corff newydd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth rheoleiddio amgylcheddol ar gyfer tua 300 o safleoedd diwydiannol mawr yng Nghymru, yn amrywio o weithfeydd dur, gorsafoedd ynni, diwydiannau gweithgynhyrchu a phrosesu mwy a safleoedd amaethyddol ar gyfer allyriadau i'r aer, y tir a/neu'r dŵr. Y prif gyfrwng rheoleiddio yw Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010, sy'n trosi'r gyfundrefn Ewropeaidd ar gyfer Atal a Rheoli Llygredd mewn ffordd Integredig i'r wlad hon. O 2013, bydd y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol yn cymryd lle'r gyfundrefn hon a chwe Chyfarwyddeb Ewropeaidd arall a chaiff ei throsi'n gyfraith gwlad yng Nghymru gan ddefnyddio Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 fel y fframwaith rheoleiddio.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraethau'r DU i ddatblygu'r Rheoliadau hyn a gofynion gweithredu cysylltiedig. Ac eithrio pan fo polisi Llywodraeth Cymru neu amgylchiadau rheoleiddio gwahanol yng Nghymru yn nodi bod angen dull rheoleiddio gwahanol, caiff y gyfundrefn hon ei chyflwyno'n gyson ledled Cymru a Lloegr. Byddai disgwyl i'r corff newydd barhau i gyfrannu at gyfundrefn y Rheoliadau hyn a'i gwaith gweithredu cysylltiedig.

## 1.13 Ymbelydredd

Mae amrywiaeth o strategaethau'r DU yn ymwneud â rheoli deunyddiau a sylweddau ymbelydrol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â gweinyddiaethau eraill y DU, y rheoleiddwyr amgylcheddol (gan gynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd), a'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear i sicrhau fframwaith cyson ar gyfer rheoleiddio

sylweddau ymbelydrol ledled y DU gyda'r nod o leihau'r risg i iechyd pobl a'r amgylchedd. Byddai disgwyl i'r corff newydd barhau i gyfrannu at gynnal gwaith rheoleiddio cyson ac effeithiol yn y maes hwn.


## 1.14 Cyfleoedd hamdden awyr agored a'u rheoli

Byddai'r corff newydd yn parhau i fod â rôl bwysig i gynllunio a darparu cyfleoedd hamdden awyr agored a'u rheoli. Câi'r rôl hon ei hybu drwy gyfuno'r arbenigedd yn y cyrff presennol, gan roi'r potensial ar gyfer cynlluniau mwy integredig a buddsoddiad mwy cydgysylltiedig. Y flaenoriaeth fydd sicrhau bod mwynhad cynyddol o'r awyr agored yn cyfrannu'n sylweddol at economi a lles Cymru a'i phobl. Mae'r agenda hon yn gwneud cyfraniad pwysig at holl flaenoriaethau'r Llywodraeth; er enghraifft i wella iechyd (Creu Cymru Egnïol), hybu'r economi wledig drwy dwristiaeth gweithgareddau (Rhaglen Adnewyddu'r Economi, a strategaethau twristiaeth y Partneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol), cefnogi gwaith adfywio drwy ddarparu mynediad a mannau gwyrdd (Blaenau'r Cymoedd a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd, Strategaeth Amgylcheddol Cymru) a chefnogi'r ddarpariaeth ar lawr gwlad ar gyfer nifer o weithgareddau awyr agored sy'n bwydo i mewn i chwaraeon cystadleuol (Dringo'n Uwch). Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff newydd gefnogi cyfranogiad cyfrifol mewn cyfleoedd hamdden awyr agored gan bob sector o gymdeithas, gyda'r pwyslais penodol ar deuluoedd a phlant a amlygir yn y Rhaglen Lywodraethu; darparu lleoedd a chyfleusterau o safon sy'n addas at y diben sy'n ategu'r holl rychwant o weithgareddau hamdden awyr agored; a sicrhau bod dulliau cyflawni effeithiol ar waith i wireddu dyheadau'r rhanddeiliaid niferus o glybiau cerdded lleol i ddarparwyr twristiaeth gweithgareddau, gan gydbwyso anghenion o ran defnydd arall o'r tir.

## 1.15 Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae dull Llywodraeth Cymru o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus (Ffigur 1) yn seiliedig ar ei gwerthoedd: Cyflawni Canlyniadau, Gwerthfawrogi Pobl a Sicrhau Rhagoriaeth, ac ar Greu'r Cysylltiadau ac Adolygiad Beecham o'r Gwasanaethau Lleol a Ddarperir. Mae'r rhain yn rhoi dull gweithredu hirdymor ar gyfer datblygu pobl, sgiliau ac adnoddau a'r ffocws ar ganlyniadau sydd ei angen arnom.

# Ffigur 1 – Fframwaith Hwyluso Llywodraeth




## 1.16 Cyfundrefn Reoleiddio Symlach

Mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i symleiddio'r gyfundrefn reoleiddio drwy geisio gweithdrefnau rheoleiddio symlach, gwella prosesau ac atgyfnerthu a diweddaru deddfwriaeth berthnasol.

Mae rhai gwahaniaethau o gymharu â'r dull gweithredu yn Llywodraeth y DU ac, mewn rhai meysydd, mae'n bosibl y bydd hyn yn ehangu gwahaniaethau gweithredol presennol rhwng cyrff oedd yn drawsffiniol. Fodd bynnag, lle y bo'n briodol, byddwn yn ceisio cadw fframwaith rheoleiddio cyffredin, er enghraifft mewn perthynas â Chynllun Masnachu Allyriadau'r UE neu agweddau ar y gyfundrefn Trwyddedu Amgylcheddol, lle y bo hyn yn diwallu anghenion Cymru.

Byddai disgwyl i'r corff newydd ein helpu i ddatblygu a chyflwyno ein ffordd wahanol o symleiddio'r gyfundrefn reoleiddio.

## 1.17 Llywodraeth Leol ac Adolygiad Simpson

Mae Adolygiad Simpson yn nodi safbwyntiau ac argymhellion ar gyfer trefniadau Llywodraeth Leol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys fframweithiau llywodraethu a chyflawni newydd, ynghyd â chynigion i wella a datblygu'r sail dystiolaeth.

Byddai angen i'r corff newydd weithio gyda llywodraeth leol ar bob lefel, gan lunio trefniadau effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys rhannu gwasanaethau lle y bo'n briodol. Byddai hefyd yn rhoi'r ffocws arweiniol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn ehangach, gan helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu trefniadau newydd ar gyfer gwaith rheoleiddio a chaniatadau amgylcheddol, gan gynnwys drwy Fil yr Amgylchedd a'r Bil Cynllunio.

# Atodiad 2: Yr Achos dros Newid

Yn yr adran hon, rydym yn egluro'r achos dros newid, er mwyn gosod y cyd-destun ar gyfer y cynigion a’r materion yr ydym yn ceisio barn benodol arnynt yn y ddogfen.

## 1.1 Pam mae angen i ni newid?

Drwy reoli ein hadnoddau naturiol[12] gyda'r nod o sicrhau datblygu cynaliadwy, credwn y byddwn yn dod o hyd i'r cydbwysedd gorau rhwng diogelu, gwella a datblygu'r adnoddau hyn a'r defnydd cynaliadwy ohonynt ar gyfer pobl Cymru ac economi Cymru, nawr ac yn y dyfodol. Er nad yw'r holl adnoddau ar gyfer datblygu dull newydd o reoli adnoddau naturiol ar gael i'r un o'r cyrff presennol na chorff newydd hyd yn oed, bydd cyfleoedd drwy ein rhaglen ddeddfwriaethol i ddatblygu'r dull hwn a byddai'r corff newydd yn helpu i lywio'r gwaith hwn.

Gellir rhannu'r rhesymau dros yr angen i newid i dri phrif grŵp:

- Mae angen i ni wella'r canlyniadau ar gyfer amgylchedd, pobl ac economi Cymru.
- Rydym am sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau sy'n diwallu anghenion Cymru, gan ddatganoli mwy o benderfyniadau lle y bo'n briodol, a chan sicrhau ein bod yn gweithredu'n lleol i wella ein hamgylchedd a diogelu swyddi a buddsoddiad yng Nghymru.
- Mae angen i ni sicrhau gwerth am arian yng nghyd-destun pwysau ar gyllid cyhoeddus, pwysau amgylcheddol a phwysau o ran cyflawni.

Nodir y rhain yn fanylach isod.

### 1.1.1 Gwella canlyniadau – dull newydd o reoli adnoddau naturiol yng Nghymru

Mae tir, dŵr ac aer Cymru, yn ogystal â'r fioamrywiaeth sy'n eu cynnal ac sy'n dibynnu arnynt, yn hanfodol i'n llwyddiant – fel unigolion, fel cymdeithas ac fel gwlad. Er mwyn i ni wireddu ein dyhead i gael ansawdd bywyd gwell a gwella ein rhagolygon yn y dyfodol, mae angen dull gweithredu newydd arnom er mwyn sicrhau y caiff ein hadnodd amgylcheddol ei ddiogelu, ei wella a'i ddefnyddio mewn ffyrdd cynaliadwy sydd o fudd i bob un ohonom ac sy'n diogelu buddiannau cenedlaethau'r dyfodol.

Fodd bynnag, mae llawer o heriau. Mae Canllaw Effeithlonrwydd Ynni'r CE (Medi 2011) yn nodi:

[12] Yn y papur hwn, mae Adnoddau Naturiol yn cynnwys adnoddau ffisegol (Aer, Tir, Dŵr) a'r ecosystemau (bioamrywiaeth) sy'n eu cefnogi ac yn dibynnu arnynt. Rydym yn diffinio rheoli adnoddau naturiol fel unrhyw swyddogaeth sy'n ategu'r broses o ddiogelu, gwella neu ddatblygu adnoddau naturiol a'r defnydd cynaliadwy ohonynt. Felly, mae cwmpas Rheoli Adnoddau Naturiol yn amrywio o gyngor ac ymyriadau rheoleiddio i ddiogelu'r amgylchedd i ddatblygu ecosystemau i'w defnyddio at ddibenion hamdden a chynaeafu (e.e. coedwigoedd).

> “Over the 20th century, the world increased its fossil fuel use by a factor of 12 whilst extracting 34 times more material resources. Today in the EU, each person consumes 16 tonnes of materials annually, of which 6 tonnes are wasted, with half going to landfill. Trends show, however, that the era of plentiful and cheap resources is over. Businesses are facing rising costs for essential raw materials and minerals, their scarcity and price volatility are having a damaging effect on the economy. Sources of minerals, metals and energy, as well as stocks of fish, timber, water, fertile soils, clean air, biomass, biodiversity are all under pressure, as is the stability of the climate system. Whilst demands for food, feed and fibre may increase by 70% by 2050, 60% of the worlds ecosystems that help produce these resources have already been degraded or are used unsustainably. If we carry on using resources at the current rate, by 2050 we will need, on aggregate, more than two planets to sustain us, and the aspirations of many for a better quality of life will not be achieved.”

Mae gan Gymru amgylchedd o ansawdd da sy'n sail i ansawdd ein bywyd, ac yn rhoi cyfleoedd i'n pobl a'n heconomi.

Fodd bynnag, mae'r pwysau hyn yn berthnasol i ni hefyd. Mae'r Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol wedi nodi, er bod rhai ecosystemau yn darparu gwasanaethau gwell, megis cynhyrchu cnydau o dir ffermio a rheoleiddio'r hinsawdd drwy goetiroedd, fod dros 30% o'r gwasanaethau a aseswyd yn dirywio, a bod eraill wedi'u diraddio, megis pysgodfeydd morol, amrywiaeth rhywogaethau gwyllt ac ansawdd y pridd.

Rydym wedi ymateb i'r heriau hyn drwy ddatblygu ein cynigion ar gyfer dull newydd o reoli adnoddau naturiol yng Nghymru. Mae 'Cynnal Cymru Fyw' yn cynnig dull integredig newydd o reoli'r amgylchedd, gan gynnwys cydgysylltu strategaethau sefydliadol presennol. Mae'n gofyn am ffyrdd newydd o weithio sy'n creu'r cysylltiadau rhwng agweddau gwahanol ar yr amgylchedd ac sy'n rheoli'r amgylchedd yn ei gyfanrwydd yn gadarnhaol er mwyn sicrhau canlyniadau cymdeithasol ac economaidd.

## 1.1.2 Rheoli adnoddau naturiol mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion Cymru

### Moderneiddio cyfundrefnau rheoleiddio a rheoli

Mae llywodraethau wedi ceisio rheoleiddio a rheoli'r amgylchedd drwy gyfres o ddulliau ar wahân ac am amrywiaeth o resymau, gyda deddfwriaeth ar agweddau gwahanol ar yr amgylchedd yn esblygu ar wahân i ymdrin â phwysau sy'n newid.

Cyflwynwyd trefniadau cynllunio gwlad a thref yn y 1930au a'r 1940au, yn bennaf i ymdrin â phryderon am wasgariad trefol ac i ddiogelu tir agored rhwng trefi. Mae Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) wedi'u dynodi ers 1949 i gadw eu rhinweddau arbennig. Cyflwynwyd rheolaethau llygredd yn raddol i wella ansawdd yr aer a'r dŵr yn wyneb diwydiannu trwm a threfoli. Datblygwyd deddfwriaeth cadwraeth natur i ddiogelu safleoedd natur a rhywogaethau penodol.

Mae pob un o'r cyfundrefnau hyn wedi meddu ar ei sail gyfreithiol, ei chyrff cyflawni a'i systemau ei hun. Wedyn, ers ymuno â'r Undeb Ewropeaidd yn 1972, mae llywodraethau wedi cyflwyno newidiadau olynol i gydymffurfio â deddfwriaeth Ewropeaidd ar bob agwedd ar yr amgylchedd. Mae’r rhain wedi’i hymgorffori yn y systemau sydd wedi’u hetifeddu a'u haddasu.

Mae ein prif gyrff cyflawni statudol presennol yn tarddu o ddeddfwriaeth ac adegau gwahanol iawn. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth (sydd â chylch gwaith i Brydain Fawr) yn dyddio'n ôl i 1919 (er i'r ddeddfwriaeth gael ei diweddaru yn 1967). Sefydlwyd Asiantaeth yr Amgylchedd (sy'n gweithio yng Nghymru a Lloegr) yn 1996 yn sgil uno'r Awdurdod Afonydd Cenedlaethol, Arolygwyr Ei Mawrhydi ar Lygredd a rheoleiddwyr gwastraff awdurdodau lleol. Sefydlwyd Cyngor Cefn Gwlad Cymru fel corff i Gymru yn unig o ganlyniad i integreiddio'r Comisiwn Cefn Gwlad a'r Cyngor Gwarchod Natur yn 1991.

Mae busnesau am i reoleiddwyr fod yn glir ac yn gyson er mwyn rhoi'r hyder iddynt wneud penderfyniadau buddsoddi. Fodd bynnag, canfyddir bod y tirlun rheoleiddio presennol yn gymhleth a gall diwydiant gael negeseuon cymhleth gan gyrff cyhoeddus gwahanol. Mae angen symleiddio'r cyfundrefnau rheoleiddio, gan sicrhau prosesau a phenderfyniadau mwy cydgysylltiedig sy'n hwyluso ac yn annog twf economaidd heb ostwng safonau amgylcheddol.

Mae Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, addasu swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru a swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth sydd wedi'u datganoli i Gymru a sefydlu corff newydd a throsglwyddo swyddogaethau iddo. Ar y cyd â'r newidiadau sefydliadol hynny, mae pwerau deddfu sylfaenol newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi cyfleoedd eraill i ddiweddaru'r ddeddfwriaeth sydd wedi datblygu dros y blynyddoedd er mwyn rhoi system fwy unedig yn ei lle, sy'n diwallu anghenion y dyfodol.

## Deddfwriaeth, adnoddau a pholisïau gwahanol

Ers i'r rhan fwyaf o gymhwysedd amgylcheddol gael ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru yn 1999, rydym wedi gweld gwahaniaethau cynyddol yn y DU ar bolisi amgylcheddol, o ran blaenoriaethau, adnoddau a deddfwriaeth. Mae'n debygol y caiff y gwahaniaethau hyn eu hehangu ymhellach wrth i ni weithredu'r dull gweithredu seiliedig ar ecosystemau a chyflwyno Biliau newydd i Gymru ar gyfer Datblygu Cynaliadwy, yr Amgylchedd a Chynllunio.

Bydd angen i ni ganolbwyntio o'r newydd ar reoli adnoddau naturiol i gefnogi datblygu cynaliadwy a chyflwyno trefniadau newydd sy'n hwyluso ymgysylltu cynnar a datrys problemau yn gynnar. Mae'r tirlun cyflawni yn gymhleth, heb waith cynllunio amgylcheddol cydlynol yn strategol nac yn lleol. Mae'r ffactorau hyn yn cael effaith andwyol ar y gwaith o gyflawni polisi a gwelliannau amgylcheddol Llywodraeth Cymru a gallant gael effaith ar gyfleoedd datblygu economaidd mawr. Mae'r papur gwyrdd 'Cynnal Cymru Fyw' yn cynnig y cyfle i gyflwyno sylwadau ar ein cynigion ehangach i ymdrin â'r materion cymhleth hyn.

## 1.1.3 Gwerth am Arian – Pwysau Ariannol, Pwysau Amgylcheddol a Phwysau o ran Cyflawni

Caiff cyllidebau Llywodraeth Cymru eu cyfyngu'n gynyddol o ganlyniad i gwtogi ehangach yng ngwariant sector cyhoeddus y DU. Felly, mae'n hanfodol ceisio cynyddu gwerth am arian systemau gwario a chyflawni presennol. Ochr yn ochr â'r gostyngiad hwn mewn cyllid, ceir pwysau cynyddol i gyflawni, gan gynnwys amrywiaeth o rwymedigaethau statudol, y mae llawer ohonynt yn deillio o ddeddfwriaeth Ewropeaidd.

Yn ehangach, mae pwysau amgylcheddol yn parhau i gynyddu. Mae lliniaru'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol ac addasu iddynt yn bwysau mawr. Bydd yr angen i reoli ecosystemau er mwyn gwella canlyniadau bioamrywiaeth, i fuddsoddi mewn trefniadau i weithio gyda rheolwyr tir, tirfeddianwyr a ffermwyr yn well, ac i ddarparu mewnbwn polisi gwell er mwyn datblygu camau cynlluniau amaeth-amgylchedd yn y dyfodol yn ychwanegu at y pwysau ar gyrff presennol a chyrff yn y dyfodol.

Felly, bydd cyflawni nodau amgylcheddol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn dibynnu ar ryddhau adnoddau i gyflawni yng nghyd-destun y pwysau newydd hyn, gan flaenoriaethu'n well, gan ddileu gweithgareddau dyblyg a chan greu cyfleoedd i wneud pethau'n wahanol ac yn fwy costeffeithiol.

## 1.2 Sut y bydd creu un corff yn helpu i ymdrin â'r problemau hyn?

### 1.2.1 Gwella canlyniadau

Mae sefydlu corff newydd yn elfen ganolog o strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli adnoddau naturiol. Byddai cyfuno swyddogaethau'r sefydliadau yn arwain at un sefydliad ag agenda fwy cyflawn ac un gyfres o gynlluniau ac amcanion strategol a gweithredol. Gallai hyn hwyluso cysoni amcanion Llywodraeth Cymru ac anghenion Cymru, gan helpu i grisialu blaenoriaethau a phenderfyniadau o ran rheoleiddio a chyflawni.

Byddai'r corff newydd yn canolbwyntio'n bennaf ar sicrhau canlyniadau gwell i'r amgylchedd, a chanddo, gan gysylltu ei gyfrifoldebau i reoli tir, coedwigaeth, safleoedd natur, rheoli adnoddau dŵr, rheoli'r perygl o lifogydd a physgota dŵr croyw â phrosesau rheoli adnoddau naturiol integredig. Bydd yn ategu hyn drwy ddefnyddio ei bwerau rheoleiddio mewn ffordd gymesur er mwyn hwyluso datblygu a thwf economaidd tra'n diogelu'r amgylchedd rhag defnydd amhriodol a niwed. Felly, mae'n gyfrwng allweddol ar gyfer yr integreiddio sydd ei angen.

Byddai canlyniadau amgylcheddol yn cael budd hefyd yn sgil un ffocws ar gyfer prosesau rheoli amgylcheddol, a fyddai'n golygu y byddai modd rhesymoli strategaethau a gweithredu mewn ffordd fwy cydgysylltiedig dros amser. Byddai adnoddau a setiau sgiliau cyffredin ynghyd â set fwy cyflawn o bwerau cyfreithiol yn helpu prosesau cyflawni. Byddai'r newid hefyd yn rhyddhau adnoddau i'w hailfuddsoddi, gan roi'r cyfle i dargedu'r adnoddau hynny at flaenoriaethau sy'n gwneud gwahaniaeth amgylcheddol.

Byddai ailfuddsoddi rhai o'r arbedion yn gwella gallu polisïau a'r arbenigedd technegol sydd ar gael yng Nghymru, a fyddai'n canolbwyntio ar y problemau sydd o bwysigrwydd arbennig yng Nghymru. Byddai cyfuno neu gronni setiau sgiliau a galluoedd yn arwain at wasanaethau mwy effeithiol a chryfach – ar lefel sefydliad ac ar lefel timau. Enghraifft amlwg yw'r gallu i ymdrin â digwyddiadau mawr megis llifogydd, lle y byddai gan sefydliad yng Nghymru lawer mwy o adnoddau yn ystod digwyddiadau, oherwydd gweithlu mwy o faint ar lawr gwlad.

### 1.2.2 Rheoli adnoddau naturiol mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion Cymru

Byddai gweithio mewn corff i Gymru'n unig yn hwyluso penderfyniadau ac atebolrwydd mwy lleol, sef penderfyniadau a wneir yng Nghymru, i Gymru, gan ystyried treftadaeth a diwylliant cyfoethog Cymru ac iaith ein cwsmeriaid a'n partneriaid.

Byddwn yn parhau i ddiogelu a gwella'r amgylchedd a bioamrywiaeth, gan gynnal safonau amgylcheddol a sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth Ewropeaidd. Fodd bynnag, byddai gwneud pethau ar lefel Cymru, o fewn ein fframwaith deddfwriaethol datblygol ein hunain, yn symleiddio prosesau rheoleiddio a chyflawni fel bod pethau'n cael eu gwneud ar lefel leol mewn ffordd sy'n briodol i Gymru.

Byddai'r newid yn symleiddio'r tirlun rheoleiddio, drwy ddileu ffiniau sefydliadol a chreu corff a all ymgysylltu â chynllunwyr a busnesau i roi barn gyson ar faterion a chynigion. Byddai hefyd yn darparu un pwynt mynediad a chyngor i ddatblygwyr, awdurdodau cynllunio a chyrff eraill sy'n rhoi caniatâd (gan gynnwys y Comisiwn Cynllunio Seilwaith a'i olynydd), tirfeddianwyr a diwydiannau wedi'u rheoleiddio.

Byddai'r corff, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid strategol eraill, yn gyfrifol yn benodol am symleiddio ac integreiddio dulliau rheoleiddio yn gyson â Bil yr Amgylchedd a'r Bil Cynllunio a fyddai eu hunain wedi'u gosod yng nghyd-destun y fframwaith a sefydlid gan y Bil Datblygu Cynaliadwy.

Ymhlith y buddiannau i'r cyhoedd, busnesau ac awdurdodau lleol byddai:

- Ceisiadau cynllunio: cyngor amserol, cyson, arbenigol i awdurdodau cynllunio lleol yn seiliedig ar farn gyffredin (un neges nid tair), ag un pwynt cyswllt, gan symleiddio trafodaethau ar faterion amgylcheddol â datblygwyr a lleihau nifer y cyfarfodydd.
- Datblygu gorchmynion cydsynio: cyngor amserol, cyson, arbenigol ar brosiectau seilwaith o bwys cenedlaethol i ymgeiswyr a'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith a'i olynydd, yn seiliedig ar farn gyffredin, ag un pwynt cyswllt.
- Ymdrin â safbwyntiau gwahanol ar yr un sail dystiolaeth amgylcheddol yn gynt ac mewn ffordd fwy adeiladol, gan leihau'r oedi cyn penderfynu ar geisiadau cynllunio a gorchmynion caniatâd datblygu o bosibl.
- Cyfundrefn reoleiddio symlach: un pwynt cyswllt ar gyfer busnesau; prosesau cydsynio symlach a chyflymach o bosibl.
- Llai o gyfarfodydd/trefniadau symlach ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Cynlluniau datblygu lleol: cyngor amserol, cyson, arbenigol i awdurdodau cynllunio lleol a'r sector datblygu, yn seiliedig ar farn gyffredin, ag un pwynt cyswllt a chan resymoli'r tystion sydd eu hangen i archwilio Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau).

### 1.2.3 Gwerth am Arian

Mae ein gwaith hyd yma wedi dod i'r casgliad bod buddiannau sylweddol o ran effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn deillio o sefydlu corff newydd. O dan y trefniadau presennol, mae llawer o swyddogaethau neu weithgareddau, yn enwedig swyddogaethau corfforaethol, yn cael eu dyblygu neu eu triphlygu yn y tri chorff a chyda'r rhiant-gyrff yn Lloegr a'r Alban (lle y bo'n berthnasol). Ymhlith yr enghreifftiau mae trefniadau llywodraethu (byrddau/uwch dimau rheoli), cynlluniau strategol, cyngor ar gynigion datblygu, cynlluniau corfforaethol, gwasanaethau cyllid a chyfrifon, gwasanaethau adnoddau dynol, caffael, gwasanaethau a systemau TG, prosesau gweithredol a gweithdrefnau cyffredin, swyddfeydd ac adeiladau, cyfarpar (gan gynnwys offer cyfalaf) a llawer o feysydd eraill.

Byddai dileu gweithgarwch dyblyg/triphlyg yn cael ei ategu a'i atgyfnerthu drwy gyflwyno prosesau symlach a chyfleoedd i wneud pethau'n wahanol – am fod haenau cenedlaethol yn cael eu dileu, graddfeydd llai a mwy o ryddid gweithredol.

Mae'r arbedion amcangyfrifedig yn sylweddol[13]. Yn ychwanegol at y gostyngiadau cyllidebol presennol sy'n wynebu'r holl sefydliadau, rydym yn disgwyl arbedion, cyn costau newid, o £158m dros 10 mlynedd. Amcangyfrifwyd mai cost y newid (gyda darpariaeth wrth gefn sylweddol) fyddai £69m, y byddai arbedion yn y blynyddoedd cynharach yn talu am lawer ohoni. Ar ôl ystyried effaith chwyddiant, gwerth net arbedion yw tua £68m dros 10 mlynedd. Rydym yn bwriadu ailfuddsoddi'r arbedion hyn i wella ein hamgylchedd ac mewn gwasanaethau i bobl a busnesau.

[13] Gweler yr achos busnes llawn yn www.wales.gov.uk/SEB i gael rhagor o fanylion am gostau, buddiannau a risgiau.

# Atodiad 3: Darn o'r Achos Busnes – Risgiau a Mesurau Lliniaru

| Risk | Mitigation |
|---|---|
| Key dependency fails to deliver on time (e.g. Legal workstream, Critical IT). This may cause problems for both the change process and the legacy organisations. | Specific project management attention to critical path issues; retain flexibility on vesting date; allow for contingency (6 months) in business plan costs Adequate resourcing and capacity planning. |
| The option may not deliver effectively because a common purpose does not develop (including loss of economic outputs from forestry as a result of conflict with other SEB objectives). | High quality senior managers appointed, clear aims and objectives implemented, including clearly defined duties and outcomes which protect forest interests. Organisational structure design promotes integration and shared outcomes. |
| Regulatory decisions may not be seen to be transparent or independent of Welsh Government. | WGSB with independent chair and board would ensure appropriate governance arrangements Consider separating regulatory/delivery elements into separate business units during detailed organisational design. Specific consideration of SEA in organisational design workstreams. Commit to publishing decision documents including conservation advice for decisions. |
| Negative stakeholder response. | Work to secure support before change. Actively manage the brand during transition and from the start to create positive opportunities to raise awareness and gain public support Increase communications and engagement. |
| Ineffective forestry policy links within Welsh Government – e.g. Rural Development Plan opportunities. | Make provision for proper policy support within the Welsh Government. |

| Risk | Mitigation |
| --- | --- |
| Change may adversely impact upon staff and organisational performance during and after transition. | Use the opportunity provided by change to motivate staff (new challenges, remove national constraints, more area ownership). Ensure appropriate training and support is in place. Accept some short term impacts. |
| Business critical activities, including services from England/Scotland, may be disrupted as a result of change (this change may be either as a result of the creation of a SEB or as a result of ongoing financial pressures and associated change in the legacy bodies). | Operational planning to focus on business critical resilience during transition. Specific review of contingency planning for major incidents.<br><br>Transition workstream to focus on service transfer and ongoing provision, including building strong corporate relationship with service providers. |
| Current organisational skills and relationships may be lost because of staff reductions or because the staff are currently located outside Wales. | Early identification of key individuals and retention measures. Analysis to identify key skills gaps for new body and prioritisation of reinvestment to recruit into areas of skill shortage. Continue with bought in services where needed. |
| Disruption to cross border working arrangements. | Ensure clear accountabilities and where appropriate service level agreements. Actively manage issues through transition workstream. |

# Atodiad 4: Trefniadau Llywodraethu Presennol ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

## Trefniadau Llywodraethu Presennol

### Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn rhan o Asiantaeth yr Amgylchedd a sefydlwyd fel corff cyhoeddus anadrannol yng Nghymru a Lloegr, yn ogystal â bod yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd Gadeirydd a Bwrdd sydd wedi'i gyfyngu yn ôl y gyfraith i rhwng 8 a 15 o aelodau. Penodir un o'r rhain gan Weinidogion Cymru a phenodir y gweddill gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd yn Lloegr.

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo ei swyddogaethau i is-bwyllgorau (Pensiynau, Archwilio, Tâl a'r Pwyllgor Cyllid Amddiffyn rhag Llifogydd) ac i'r Prif Swyddog Gweithredol, sef y Swyddog Cyfrifyddu sy'n aelod o'r Bwrdd. Caiff swyddogaethau eu dirprwyo ymhellach wedyn i Gyfarwyddwyr Gweithredol a swyddogion drwy'r cynlluniau dirprwyo ariannol ac anariannol.

### Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn gorff i Gymru'n unig ac yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru hefyd. Sefydlir Cyngor Cefn Gwlad Cymru gyda Chadeirydd wedi'i benodi gan Weinidogion Cymru, Cyngor o rhwng 8 a 12 o aelodau a benodir gan Weinidogion hefyd a Phrif Swyddog Gweithredol y cadarnheir ei benodiad gan y Gweinidog. Dirprwyir pwerau'r Cyngor i'r Prif Swyddog Gweithredol, sef y Swyddog Cyfrifyddu ond nad yw'n aelod o'r Cyngor. Mae gan y Cyngor Bwyllgor Archwilio a Risg a Phwyllgor Tâl (nid oes angen Pwyllgor Pensiynau, am nad yw Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn cynnal ei gynllun pensiwn ei hun ond yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPC)). Penodir Cyfarwyddwyr Gweithredol gan banel a benodir gan y Prif Swyddog Gweithredol ond sy'n cynnwys aelod o'r Cyngor. Ymdrinnir â gwaith rheoli o ddydd i ddydd drwy gynlluniau dirprwyo i staff sy'n cwmpasu materion ariannol ac anariannol.

### Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn Adran Anweinidogol. Mae Deddf Coedwigaeth 1967 (fel y'i diwygiwyd) a Deddf Coedwigaeth 1979 yn nodi'r prif fframwaith deddfwriaethol y mae'r Comisiwn yn gweithredu ynddo. Maent hefyd yn nodi prif ddyletswyddau a phwerau'r Comisiynwyr Coedwigaeth. Ystyrir bod y Comisiwn Coedwigaeth yn un o gyrff y Goron.

Ystyrir hefyd fod y Comisiwn Coedwigaeth yn un o adrannau anweinidogol y llywodraeth. Ers datganoli, bu'n ofynnol i Gomisiynwyr gyflawni eu swyddogaethau ar wahân yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ac maent yn atebol ac yn cyflwyno adroddiadau ar wahân i Weinidogion Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Gweinidogion yr Alban.

Cyfarwyddwr Comisiwn Coedwigaeth Cymru yw ei Swyddog Cyfrifyddu. Felly, mae'r Comisiwn hefyd yn awdurdod cyhoeddus trawsffiniol.

Caiff y Comisiwn Coedwigaeth ei arwain gan fwrdd o Gomisiynwyr sy'n cyfarfod i ystyried materion trawsffiniol pan allent effeithio ar allu'r Comisiwn i gyflawni ei ddyletswyddau statudol, i bennu cyfeiriad strategol y Comisiwn Coedwigaeth ac i gael trosolwg o risg gorfforaethol. Er bod y mwyafrif helaeth o swyddogaethau Gweinidogol mewn perthynas â'r Comisiwn Coedwigaeth wedi'u datganoli bellach, drwy gytundeb y Gweinidogion yn y tair gwlad, caiff swyddogaethau a chyfrifoldebau penodol eu cyflawni ar gyfer Prydain Fawr gyfan. Gan gydnabod natur ddatganoledig coedwigaeth, mae'r Comisiynwyr, o dan adran 2(3) o Ddeddf Coedwigaeth 1967, wedi dirprwyo cyfran sylweddol o'u cyfrifoldebau i'r Pwyllgorau Cenedlaethol ym mhob gwlad.

**Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**

**Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru**

Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd dri phwyllgor cynghori statudol yng Nghymru: Pwyllgor Ymgynghorol Gwarchod yr Amgylchedd, Pwyllgor Rhanbarthol Llifogydd ac Arfordir Cymru, Rheoli Perygl Llifogydd Cymru a'r Pwyllgor Ymgynghorol Pysgodfeydd, Ecoleg a Hamdden. Penodir aelodau gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac fe'u henwebir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Penodir eu cadeiryddion gan Weinidogion Cymru. Mae amrywiaeth o drefniadau anstatudol i ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn ardaloedd lleol.

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru**

Nid oes gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru unrhyw drefniadau cynghori ffurfiol y tu hwnt i'w gyngor gweithredol.

**Comisiwn Coedwigaeth Cymru**

Ar ran Gweinidogion, mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi rheoli'r Panel Cynghori anstatudol ar y Strategaeth Goetiroedd. Mae'r Panel hwn wedi chwarae rhan lwyddiannus i helpu i lywio ein strategaeth ar gyfer coetiroedd yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae wedi gweithredu drwy gynnwys llawer o randdeiliaid ac ar sail consensws. Byddem yn gobeithio parhau â'r dull ymarferol hwn ar gyfer cydbwyso buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol o'n hadnodd coetiroedd ac adeiladu arno.

Caiff Comisiwn Coedwigaeth Cymru ei ddefnyddio hefyd gan aelodau'r Panel Cynghori i greu pwyllgorau cynghori statudol fesul achos i ymdrin â'r nifer fach o anghydfodau rheoleiddio sy'n deillio o ddeddfwriaeth coedwigaeth. Mae hyn wedi bod yn effeithlon iawn er mwyn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng mewnbwn gan randdeiliaid anstatudol a statudol.

**Compact Amgylcheddol**

Mae pob un o'r tri sefydliad wedi llofnodi Compact Amgylcheddol â'r trydydd sector amgylcheddol yng Nghymru. Mae'r compact hwn yn disgrifio sut y dylai'r sefydliadau ymgysylltu a gweithio gyda'i gilydd.

## Atodiad 5: Fframwaith Cyflawni

**Fframwaith cyflawni – Adnoddau Naturiol Cymru**

atblygu CynaliadwySicrhau D

| Themâu'r Canlyniadau | Amcanion | Beth y gellir ei ystyried yn llwyddiant? | Dangosyddion perthnasol Llywodraeth Cymru â gradd dylanwad y Corff newydd* |
|---|---|---|---|
| **Diogelu, cynnal, gwella a datblygu ein hadnoddau naturiol**<br><br>1. Cyfrannu at ddiogelu iechyd a diogelwch y cyhoedd ac at hyrwyddo lles<br><br>2. Atal, lleihau, unioni neu liniaru effaith niweidiol llygredd, rhywogaethau estron a chlefydau ar yr amgylchedd<br><br>3. Hyrwyddo'r gwaith o warchod, adfer, gwella a defnyddio ecosystemau<br><br>4. Sicrhau y caiff adnoddau naturiol a gwasanaethau ecosystemau eu defnyddio a'u rheoli'n gynaliadwy<br><br>5. Cyfrannu at liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd ac addasu iddynt | 1. Rheoli aer, tir, dŵr a bioamrywiaeth i ddiogelu a gwella ecosystemau, gan sicrhau y gellir darparu gwasanaethau cynaliadwy<br>2. Rheoli ecosystemau daearol a morol yn well drwy gynllunio adnoddau naturiol mewn ffordd integredig<br>3. Ategu'r gwaith o ddatblygu prosesau cynllunio Seilwaith Cenedlaethol integredig sy'n cydnabod buddiannau cynaliadwyedd ecosystemau Cymru a'r bygythiadau iddo<br>4. Hyrwyddo'r gwaith o reoli dŵr, gan gynnwys dyfroedd ymdrochi, i sicrhau cyflenwad cynaliadwy, gwelliannau'r gyfarwyddeb fframwaith dŵr a buddiannau ehangach gwasanaethau ecosystemau<br>5. Cyfrannu at leihau nwyon tŷ gwydr drwy reoliadau a thrwy reoli tir a dylanwadu ar y broses o'i reoli gan eraill er mwyn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr<br>6. Cefnogi'r broses o addasu ecosystemau yn unol â hinsawdd sy'n newid, gan sicrhau y gallant gynnal y gwasanaethau a ddarperir ganddynt<br>7. Hyrwyddo addasiadau amgylcheddol yn unol â'r newid yn yr hinsawdd yn seiliedig ar risg ymhlith yr holl awdurdodau a sectorau perthnasol<br>8. Cefnogi'r broses o leihau gwastraff yng Nghymru, drwy reoleiddio a rhaglenni eraill a rheoli ei effaith ar ecosystemau yng Nghymru ac yn rhyngwladol<br>9. Rheoli achosion o glefydau coed i gydbwyso effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol | 1. Bydd cynlluniau adnoddau naturiol integredig sy'n seiliedig ar le yn rhan sefydledig a dylanwadol o bob agwedd ar benderfyniadau yn ymwneud â rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd gynaliadwy<br>2. Bydd ecosystemau Cymru yn amlygu tueddiadau cyflwr cadarnhaol gan gyrraedd terfynau amgylcheddol yn llai aml<br>3. Mae rhwydwaith ecolegol cydlynol a chydnerth, yn ddaearol ac yn forol, wedi'i gynllunio ac mae ffyrdd o'i gyflawni ar waith<br>4. Ceir pryderon o ran ansawdd aer a dŵr yng Nghymru yn llai ac yn llai aml oherwydd y dull o fynd ati i gynllunio 'ymlaen llaw'<br>5. Cydnabyddir pwysigrwydd cyflwr y pridd i'r un graddau â phwysigrwydd aer a dŵr a chaiff ffocws tebyg gan reolwyr ar y gwaith o reoli pridd ei ddatblygu gan y corff a rheolwyr tir eraill<br>6. Caiff datblygiadau newydd, gan gynnwys seilwaith mawr, eu lleoli a'u dylunio o'r cychwyn i ymgorffori gwelliannau ac osgoi effeithiau negyddol sy'n tanseilio cynaliadwyedd yr ecosystemau perthnasol a'u gwasanaethau<br>7. Mae'r corff yn gweithredu fel esiampl o reolwr amgylcheddol, gan roi cynnig ar fentrau arloesol i leihau ei ôl troed ei hun ac ôl troed Cymru fel cenedl<br>8. Ystyrir y corff yn hyrwyddwr ynni adnewyddadwy cynaliadwy yn ei waith cyflawni uniongyrchol a thrwy ei waith ehangach<br>9. Mae amgylchedd Cymru wedi ymaddasu'n llawer gwell i hinsawdd sy'n newid a chaiff atebion addasu amgylcheddol eu mabwysiadu'n eang<br>10. Mae defnydd tir a'r broses o reoli tir, gan gynnwys cynnydd mewn arwynebedd coetir, wedi newid yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru | 1. Allyriadau blynyddol o fasged o nwyon tŷ gwydr (yn ôl sector) – B<br>2. Allyriadau nwyon tŷ gwydr net yn sgil defnydd tir, newid mewn defnydd tir a choedwigaeth (LULUCF) – B<br>3. Gwastraff trefol y pen y flwyddyn – B<br>4. Gwastraff diwydiannol a masnachol a gynhyrchir y flwyddyn – A<br>5. Y dŵr a ollyngir – B<br>6. Defnydd o ddŵr y pen – B<br>7. Cyfaint y dŵr a dynnir o'r amgylchedd – A<br>8. Tueddiadau mewn rhywogaethau a chynefinoedd Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth – B<br>9. Canran y nodweddion ar Safleoedd a Ddiogelir mewn cyflwr ffafriol neu sy'n gwella – A<br>10. Tueddiadau ym mynegai poblogaeth adar gwyllt – B<br>11. Cyfran y coetir a reolir yn unol â safon Coedwigaeth y DU – A<br>12. Faint o goetir a gaiff ei greu – B<br>13. Amrywiaeth coetiroedd – A<br>14. Allyriadau llygryddion aer gwenwynig a chrynodiadau yn yr aer – A<br>15. Diwrnodau pan oedd llygredd aer yn gymedrol neu'n uwch<br>16. Ansawdd dŵr afonydd - biolegol a chemegol – A<br>17. Ansawdd dyfroedd ymdrochi –B<br>18. Canran yr ardal â chynefin sensitif sy'n fwy na'r lefelau critigol ar gyfer asideiddio ac ewtroffeiddio – B |
| **Defnydd cynaliadwy o'n hadnoddau naturiol er budd pobl a'r economi, nawr ac yn y dyfodol**<br><br>1. Cyfrannu at ddiogelu iechyd a diogelwch y cyhoedd ac at hyrwyddo lles<br><br>2. Atal, lleihau, unioni neu liniaru effaith niweidiol llygredd, rhywogaethau estron a chlefydau ar yr amgylchedd<br><br>3. Hyrwyddo'r gwaith o warchod, adfer, gwella a defnyddio ecosystemau<br><br>4. Sicrhau y caiff adnoddau naturiol a gwasanaethau ecosystemau eu defnyddio a'u rheoli'n gynaliadwy<br><br>5. Cyfrannu at liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd ac addasu iddynt | 10. Diogelu bywyd ac eiddo drwy reoli'r perygl o lifogydd, rheoli tir a rheoleiddio allyriadau i'r aer a dŵr yn effeithiol<br>11. Hyrwyddo dulliau rheoli adnoddau naturiol cynaliadwy fel adnodd adfywio cadarnhaol<br>12. Rheoli'r broses o reoli adnoddau naturiol yn uniongyrchol a dylanwadu arni, er mwyn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu economaidd cynaliadwy<br>13. Meithrin dealltwriaeth a chyfranogiad y cyhoedd mewn agweddau perthnasol ar y broses o Reoli Adnoddau Naturiol<br>14. Hyrwyddo a rheoli mynediad i'r dirwedd, mannau gwyrdd a chyfleusterau hamdden awyr agored er budd iechyd a lles pawb<br>15. Hyrwyddo ynni adnewyddadwy cynaliadwy o amgylchedd Cymru a helpu i'w sicrhau<br>16. Rheoli tir o dan reolaeth uniongyrchol, gan gynnwys yr ystad goedwig gyhoeddus, er mwyn sicrhau buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol integredig a chytbwys<br>17. Rheoli pysgodfeydd dŵr croyw a dylanwadu ar bysgodfeydd morol er mwyn sicrhau gwasanaethau cytbwys a phoblogaethau pysgod cynaliadwy | 11. Mae llifogydd yn effeithio'n llai ac yn llai ar bobl ac mae'r rhai yr effeithir arnynt yn gallu ymdopi'n well, hyd yn oed os bydd y posibilrwydd o lifogydd yn cynyddu yn y dyfodol<br>12. Mae mentrau a busnesau sy'n dibynnu ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn gwneud cyfraniad cynyddol werthfawr at wella perfformiad economaidd Cymru<br>13. Cydnabyddir bod y defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol yn rhan fwy annatod o fywydau pobl, gan lywio eu penderfyniadau fel unigolion ac fel cymunedau<br>14. Mae pobl yng Nghymru yn iachach ac yn hapusach o ganlyniad i gymryd mwy o ddiddordeb yn yr amgylchedd a'r cyfleoedd y mae'n eu hategu<br>15. Mae tirwedd a morwedd Cymru yn parhau i ddatblygu a newid yn unol â dull gweithredu seiliedig ar ecosystemau a gwerthfawrogir eu gwerth yn ehangach o ganlyniad i hynny<br>16. Cydnabyddir yn gynyddol fod ffermwyr, coedwigwyr a physgotwyr yn sicrhau buddiannau ehangach a chynaliadwy i'r amgylchedd a chymdeithas, yn ogystal â rhedeg busnesau proffidiol | 19. Gwerth ychwanegol pren a dyfir yng Nghymru – B<br>20. GYC sector coedwigaeth Cymru – B<br>21. Cyfran y gwastraff trefol a ailgylchir neu a gompostir – B<br>22. Canran y bobl sy'n gwirfoddoli – B<br>23. Nifer y pysgodfeydd y mae ICES a Phwyllgorau Pysgodfeydd Môr yn asesu eu bod mewn cyflwr biolegol diogel – C<br>24. Canran y bobl sy'n nodi y gallent fynd i barc neu fan agored yn hawdd – B<br>25. Canran yr oedolion sy'n defnyddio'r awyr agored yn aml at ddibenion hamdden anffurfiol – A<br>26. Cost flynyddol difrod oherwydd llifogydd – A<br>27. Tebygolrwydd llifogydd o ran asedau mewn perygl – A<br>28. Canran y datblygiadau newydd a ganiateir yn y gorlifdir – A<br>29. Achosion o safleoedd a ddiogelir yn cael eu difrodi – A |
| **Mwy ar gyfer Cwsmeriaid**<br>─ Canolbwyntio ar gwsmeriaid<br>─ Cydgysylltiedig<br>─ Awdurdodol ac agored<br>─ Galluogi | 18. Cynnig gwasanaeth cwsmeriaid ardderchog a hyrwyddo'r ffaith bod Cymru 'ar agor' i fusnes cynaliadwy<br>19. Mynd ati i helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hamcanion polisi strategol<br>20. Darparu tystiolaeth integredig ac awdurdodol ar gyfer y llywodraeth a chwsmeriaid<br>21. Datblygu cydnerthedd ac ymatebolrwydd sefydliadol i sicrhau y cyflawnir disgwyliadau pob cwsmer<br>22. Datblygu gwasanaeth cwsmeriaid i Gymru 'gyfan' sy'n canolbwyntio ar bobl a lleoedd | 17. Mae'r corff yn darparu gwasanaeth 'seiliedig ar le' arloesol sy'n gallu gweithredu'n strategol ac yn lleol i'w holl gwsmeriaid, ledled Cymru gyfan<br>18. Mae'r gymuned fusnes ac eraill yn cydnabod yn gyflym fod y corff yn cefnogi uchelgais Cymru i wella ei pherfformiad economaidd drwy geisio atebion cynaliadwy ar gyfer rheoli adnoddau naturiol<br>19. Mae cyngor amgylcheddol i'r llywodraeth, busnesau, cymunedau a chymdeithas sifil, wedi'i lywio'n rhannol gan raglen wyddoniaeth awdurdodol, yn glir ac yn gyson ac yn seiliedig bob amser ar sicrhau datblygu cynaliadwy<br>20. Bydd y sefydliad yn cyflawni ei dargedau'n gyson, gan gynnwys perfformiad ariannol, ac fe'i cydnabyddir yn esiampl ym maes rheoli adnoddau naturiol<br>21. Caiff cyfran uwch o gyllideb y corff ei gwario ar reoli adnoddau naturiol a chaiff cyfran lai ei gwario ar broses<br>22. Mae'n amlwg i'r rhai a gaiff eu rheoleiddio gan y corff newydd ac eraill sydd â diddordeb mewn rheoleiddio effeithiol fod prosesau yn dryloyw ac yn gynyddol berthnasol, cymesur, amserol a seiliedig ar risg ac yn galluogi i raddau cynyddol<br>23. Pan fydd deddfwriaeth yn rhoi disgresiwn i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, caiff hwn ei ddefnyddio'n gynyddol i helpu i weithredu dull gweithredu seiliedig ar ecosystemau â'r nod o sicrhau datblygu cynaliadwy<br>24. Mae'r corff yn gweithio gydag eraill, a thrwy eraill ac yn galluogi eraill, lle bynnag y bo modd, i arwain y gwaith o reoli adnoddau naturiol a'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol | Caiff meincnodau Swyddfa'r Cabinet a Llywodraeth Cymru eu defnyddio i bennu dangosyddion ar gyfer perfformiad corfforaethol |
| **Mwy ar gyfer Staff**<br>─ Wedi'u harwain yn dda<br>─ Wedi'u hyfforddi'n dda<br>─ Yn cyfateb yn dda i'r swyddi | 23. Rheoli sefydliad uchel ei gymhelliant a gaiff ei arwain yn dda sy'n dod yn 'gyflogwr o ddewis' gweithwyr proffesiynol<br>24. Datblygu diwylliant sefydliadol allblyg sy'n seiliedig ar hyblygrwydd, arloesedd, tystiolaeth a chyflawni | 25. Caiff ymgeiswyr eithriadol eu denu i weithio i'r corff oherwydd ei broffil a'i berthnasedd<br>26. Bydd gan staff lwybrau gyrfa amrywiol a chyfoethog a bydd llawer ohonynt yn defnyddio eu sgiliau mewn swyddogaethau gwahanol yn y corff fel strategaeth fwriadol drwy gydol eu gyrfaoedd<br>27. Cydnabyddir bod gweithlu cyfunol y corff mor amrywiol â chymdeithas Cymru<br>28. Bydd staff a rhanddeiliaid yn cydnabod diwylliant cyffredin lle y caiff swyddogaethau gwahanol y corff yr un parch a lle y cydnabyddir mai rhagoriaeth yw'r safon ofynnol | Caiff meincnodau Swyddfa'r Cabinet a Llywodraeth Cymru eu defnyddio i bennu dangosyddion ar gyfer perfformiad corfforaethol |
| **Gradd dylanwad y Corff newydd*** | A ─ dangosyddion y mae camau gweithredu'r Corff newydd yn dylanwadu arnynt yn fwy na ffactorau eraill<br>B ─ dangosyddion y mae camau gweithredu'r Corff newydd yn dylanwadu arnynt tua'r un peth â ffactorau eraill<br>C─ dangosyddion y mae ffactorau eraill yn dylanwadu arnynt yn fwy na chamau gweithredu'r Corff newydd | | |

# Atodiad 6: Rhestr enghreifftiol o gynlluniau codi tâl

1. Trwyddedu Amgylcheddol

   cyfleusterau gwastraff
   gosodiadau
   sylweddau ymbelydrol (Rheoleiddio Sylweddau Ymbelydrol (RSR)) – niwclear ac anniwclear
   gwastraff mwyngloddio
   offer symudol
   Dŵr daear
   Ansawdd Dŵr

2. Taliadau gwastraff eraill

   Cofrestru Cludwyr (ROCAS)
   Eithriadau metal sgrap
   Eithriadau gwastraff hysbysadwy

3. Tynnu Dŵr a Chronni Dŵr

4. Cynlluniau masnachu

   Masnachu Allyriadau
   Hedfan
   Ymrwymiad i Leihau Carbon

5. Trwyddedau pysgota â gwialen a physgota rhwydi

6. Trwyddedau mordwyo

7. Gwastraff peryglus

8. COMAH (cynllun ar y cyd â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch – Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr)

9. Mae newidiadau mewn rheoliadau wedi'u cynnwys yng nghynlluniau'r Asiantaeth o 2011

   Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr – Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff (WEEE)
   Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr – Batris
   Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr – Deunydd Pacio
   Cludo Gwastraff yn Rhyngwladol

10. Rheoli'r Perygl o Lifogydd

    Caniatadau Draenio Tir